

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Rheoli Ystâd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru

Adroddiad gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru



# Rheoli ystâd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru

Adroddiad gan Swyddfa Archwilio

Genedlaethol ar ran Archwilydd

Cyffredinol Cymru.

28 Tachwedd 2001

£16.20

Paratowyd yr adroddiad hwn i'w gyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Ddeddf Llywodraeth i Gymru 1998.

| | |
|---|---|
| John Bourn<br>Archwilydd Cyffredinol Cymru | Cynulliad Cenedlaethol Cymru<br>Bae Caerdydd<br>Caerdydd<br>CF99 1NA<br><br>20 Tachwedd 2001 |

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn hollol annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae'n ardystio cyfrifon y Cynulliad a'i gyrff noddedig cyhoeddus cysylltiedig; ac mae ganddo awdurdod statudol i adrodd i'r Cynulliad ar y cynildeb, effeithlonrwydd ac effeithioldeb sydd gan y Cynulliad a'i gyrff cyhoeddus noddedig wrth ddefnyddio eu adnoddau i gyflawni eu gweithrediadau.

Paratowyd a chyhoeddwyd yr adroddiad hwn ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru.

Os am fwy o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru cysylltwch â:


Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru
23-24 Plas-y-Parc
Caerdydd
CF10 3BA

Tel: 029 20 37 8661

e-bost: ian.summers@nao.gsi.gov.uk
gillian.body@nao.gsi.gov.uk
Cyfeiriad safle'r Wê: http://www.acc.cymru.gov.uk/dangoseg.htm

# CYNNWYS


**Crynodeb gweithredol** 1

**Rhan 1: Cyflwyniad** 7

Ystâd GIG Cymru - cefndir 7

Polisi a nodau'r Cynulliad ar gyfer ystâd GIG Cymru 8

Cyfrifoldebau ac atebolrwydd rheoli ystâd GIG Cymru 9

Maes a methodoleg astudiaeth Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru 11

**Rhan 2: Strategaeth yr ystâd a threfniadaeth rheoli** 13

Datblygiad a gweithredu strategaethau ystâd ar gyfer GIG Cymru 13

Rheoleiddio, trefniadaeth a staffio ystâd 18

**Rhan 3: Gwybodaeth am ystadau a'u perfformiad** 22

Trefniadau ar gyfer asesu perfformiad rheoli ystâd 22

Cyflwr ystâd GIG Cymru 27

**Atodiad**

1. Methodoleg a ddefnyddiwyd gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru 39
2. Crynodeb o argymhellion perthnasol Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar reoli ystâd y GIG (1988) ac ymateb y llywodraeth 40

# CRYNODEB GWEITHREDOL

1 Mae asedau ystâd y Gwasanaethau Iechyd Gwladol yng Nghymru (GIG Cymru) yn bodoli i gynnal y ddarpariaeth o wasanaethau gofal iechyd yng Nghymru. Defnyddir ysbytai, canolfannau iechyd a chlinigau GIG Cymru gan yn agos i 90,000 o bobl yr wythnos, gyda thua 15,000 gwely ar gyfer cleifion a'r rhain yw'r amgylchedd gweithio ar gyfer 55,000 o staff a gyflogir yn uniongyrchol. Mae ystâd GIG Cymru'n meddu ar dros 1,000 hectar o dir gyda'n agos i 900 o anhedd-dai. Mae'r rhain yn cynnwys tua 130 ysbyty, dros 350 o ganolfannau iechyd a chlinigau, 90 gorsaf ambiwlans, a gwahanol gyfleusterau gweinyddol a chefnogol.

2 Mae cyfanswm gwerth defnydd yr ystâd a ddelir gan ymddiriedolaethau ac awdurdodau iechyd yn agos i £1.2 biliwn. Delir tua 90 y cant o'r gwerth hwn (£1.1 biliwn) gan ymddiriedolaethau'r GIG, a'r awdurdodaeth iechyd sy'n dal y 10 y cant arall (£120 miliwn). Mae'r cyfan bron o ystâd yr awdurdod iechyd yn eiddo yr aseswyd nid oes iddo werth defnydd ar gyfer gofal tymor hir (a elwir yn ystâd weddilliol) ac fe'i rheolir gan awdurdodau iechyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad). Amcangyfrif gan Ystadau Iechyd Cymru y bydd y gost o adnewyddu ystâd GIG Cymru'n llwyr ag anhedd-dai modern o amgylch £4 biliwn.

3 Mae rheoli ystâd GIG Cymru'n effeithiol ac effeithlon yn hanfodol ar gyfer cyflwyno gwasanaethau gofal iechyd o ansawdd gan bobl broffesiynol mewn gofal iechyd i'r bobl sydd â'u hangen. Ceisiodd yr ymchwil gan Swyddfa Archwilo Genedlaethol Cymru sefydlu pa mor dda yr oedd GIG Cymru'n rheoli asedau'r ystâd oedd yn cael ei rheoli a'i pherchenogi a'i dal gan ymddiriedolaethau ac awdurdodau iechyd y GIG yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys adeiladau a thir a ddefnyddir ar gyfer gwasanaethau ysbyty cyffredinol, ysbyty arbenigol a gofal cymunedol. Wnaethom ni ddim edrych ar reolaeth asedau ystâd gofal cychwynnol a ddelir gan feddygon teulu. Canolbwyntiwyd ein sylw ar y canlynol:

- adolygu strategaeth rheoli ystâd a threfniadau sefydliadol, ar lefelau'r Cynulliad, awdurdod iechyd a Ymddiriedolaeth y GIG (Rhan 2); ac
- asesu gwybodaeth a rheolaeth ystâd a pherfformiad rheolaeth ystâd (Rhan 3).
  Yr adroddiad hwn yw'r cyntaf o ddau ymchwiliad yn canolbwyntio ar ystâd GIG Cymru. Bydd yr ail adroddiad yn trafod adnewyddu ystâd, rhesymoli a gwaredu eiddo diangen.

## Crynodeb o ddarganfyddiadau a chymeradwyaethau

### Rheolaeth strategol yr ystâd

4 Dull strategol o reoli ystâd y GIG yng Nghymru yw'r allwedd i sicrhau fod penderfyniadau ynglyn â defnydd presennol a datblygiad eiddo gofal iechyd yn y dyfodol ar sail gadarn. Yn niffyg fframwaith strategol digon cadarn, mae perygl y bydd penderfyniadau ynghylch rheoli a datblygu ystâd yn cael eu gwneud mewn dull digyswllt. Mae hyn yn ei dro'n creu perygl y gall buddsoddiad ariannol mewn cynnal ac uwchraddio ystâd gael ei gamgyfeirio. Mae cyfarwyddyd y Swyddfa Gymreig a'r Cynulliad yn ystod y blynyddoedd diweddar, gan dynnu ar ymarfer rheoli ystâd da a gynhyrchwyd gan Bwyllgor Rheoli'r GIG yn Lloegr, wedi pwysleisio'n gyson yr angen am i gyrff y GIG sy'n dal ac yn rheoli eiddo ddatblygu a chynnal strategaethau ystâd cadarn.

5 Wrth archwilio datblygiad strategaeth gan y Cynulliad ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru fe welsom:

- Fod Cyfarwyddiaeth GIG y Cynulliad yn cydnabod yr angen i holl gyrff sy'n dal eiddo'r GIG gael strategaethau ystâd cadarn ac mae'n cymryd camau i annog hyn drwy ei bolisi o reoli ystâd ar gyfer GIG Cymru, ei gynllun i weithredu strategaeth ystâd, cynhyrchu a dosrannu cyfarwyddyd ynglŷn ag ystâd, a hyfforddiant perthynol.

- Does dim strategaeth ystâd trosfwaol wedi bod ar gyfer GIG Cymru'n gyffredinol, yn nodi'r gwahanol amcanion, nodau, cyllidebau a thargedau'n ymwneud â rheoli'r ystâd dros Gymru gyfan. Fodd bynnag, mae Cyfarwyddiaeth y GIG yn ceisio cywiro'r diffyg hwn drwy baratoi cynllun datblygu ystâd cenedlaethol a disgwylir ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2002.

- Mae lle i wella o ran prydlonrwydd cyfarwyddyd y Cynulliad ar strategaeth ystâd a materion cysylltiol a ddyroddwyd i gyrff sy'n dal eiddo GIG Cymru. Mae bron yr holl gyfarwyddyd am reoli ystâd a gyhoeddwyd yng Nghymru yn gyfarwyddyd ar draws y GIG, neu'n seiliedig ar gyfarwyddyd ar draws GIG y DU, a ddyroddwyd mewn Cylchlythyrau Iechyd Cymru neu Lythyrau Ystadau Iechyd Cymru. Fodd bynnag, cafwyd oedi sylweddol o ran dyroddi'r cyfarwyddyd hwn gan y Cynulliad, gyda gwelliannau neu ddim, gan achosi dryswch ymhlith ymddiriedolaethau GIG Cymru ynglŷn â beth sy'n gymwys.

- Mae gweithrediadau gan ymddiriedolaethau GIG Cymru a chan yr awdurdodau iechyd yng Nghymru i ddatblygu strategaeth ystadau wedi bod yn ysbeidiol a hwyr. Hyd yn hyn, dim ond pump o'r 15 ymddiriedolaeth sydd wedi cynhyrchu strategaethau ystadau sydd wedi'u cymeradwyo. Dyroddodd y Cynulliad nod o Ragfyr 2001 pryd mae disgwyl i holl ymddiriedolaethau'r GIG fod wedi cynhyrchu strategaeth ystâd.

- Mae lle i wella ansawdd y strategaethau ystâd: roedd gan y strategaethau sydd wedi'u cynhyrchu a'u hadolygu gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru hyd yn hyn wendidau sylweddol. Mae Ystadau Iechyd Cymru wedi darparu hyfforddiant yn ddiweddar i ymddiriedolaethau ar gyfer gorffen eu strategaethau.

6 Rydym yn argymell:

i fod Cyfarwyddiaeth GIG y Cynulliad yn hwyluso cynhyrchiad dogfen strategaeth lefel-uchel ar gyfer ystâd GIG Cymru yn gyffredinol. Dylai'r ddogfen strategaeth ystâd trosfwaol yma gynnwys targedau strategol, blaenoriaethau corfforol, ac estyniadau gwariant cyllid, a safonau perfformiad ystâd allweddol a meincnodau; a

ii dylai Cyfarwyddiaeth y GIG asesu perthnasedd y cyfarwyddyd arfer da generig ar reoli ystâd sydd ar gael a chyhoeddi cyngor clir a diffiniol ynglŷn â'i chymhwysedd yng Nghymru yng nghyd-destun trefniadau gweinyddol Cymreig.

## Trefnu a staffio rheolaeth ystâd

7 Mae cyfarwyddyd ar draws y Cynulliad a'r GIG yn pwysleisio'r angen i gyrff sy'n dal eiddo i ddynodi'n glir bob atebolrwydd a chyfrifoldebau ar gyfer rheoli ystâd o fewn eu sefydliadau a sicrhau fod staff sy'n rheoli'r ystâd yn briodol gymwys i gyflawni'u cyfrifoldebau. Ceisiodd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru sefydlu pa mor dda y mae trefniadaeth a staffio swyddogaethau rheolaeth ystâd o fewn Cyfarwyddiaeth y GIG, yr awdurdodau iechyd ac ymddiriedolaethau GIG Cymru wedi eu galluogi i gyflawni eu gwahanol gyfrifoldebau rheoli'r ystad. Fe welsom:

- Fod rheolaeth ystâd y GIG wedi cael proffil corfforaethol cymharol isel o fewn Cyfarwyddiaeth GIG y Cynulliad er gwaethaf gwerth defnydd presennol yr ystâd (£1.2 biliwn), lefel y gwariant blynyddol ar yr ystâd (dros £300 miliwn), a natur dechnegol ac arbenigol asedau'r eiddo hynny. Mae arolwg o drefniadaeth Cyfarwyddiaeth y GIG yn cael ei chynnal ar hyn o bryd a bydd yn trafod y mater hwn.

- Ystadau Iechyd Cymru yw cnewyllyn canolog arbenigedd rheoli ystâd GIG proffesiynol yn y Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru. Oddi ar ei sefydlu yn 1996 mae ei wasanaethau wedi datblygu mewn ymateb i'r galw gan y cleientau o gyfeiriad Cyfarwyddiaeth y GIG ac ymddiriedolaethau'r GIG a'r awdurdodau iechyd, yn hytrach na fel rhan o gyfarwyddiad clir oddi wrth Gyfarwyddiaeth y GIG ynglŷn â'i phrif flaenoriaethau. Er bod y gwasanaethau a gynigir gan ystadau iechyd Cymru yn rhad ac am ddim i gyrff GIG sy'n dal eiddo, mae rhai yn dewis defnyddio'r sector preifat yn lle.

- Mae Ymddiriedolaethau'r GIG wedi datblygu dulliau a strwythurau tra gwahanol ar gyfer trefnu a staffio'u swyddogaethau rheoli ystâd. Cwtogwyd nifer y staff proffesiynol a thechnegol a gyflogwyd gan yr ymddiriedolaethau yn ystod y 1990au wrth i'r ymddiriedolaethau geisio gwneud arbedion ariannol fel rhan o'r ymgyrch i sicrhau eu bod yn byw o fewn eu hincwm ac mewn rhai achosion, wella'u sefyllfa ariannol. Mae GIG Cymru'n cydnabod fod problemau'n bodoli ynglŷn â'r proffil oedran sy'n gynyddol hyn o'r staff rheoli ystâd, colledion staff ac arbenigedd, a'r anawsterau o benodi personél newydd ac iau sy'n briodol gymwys.
- Roedd y cyfrifoldeb dynodedig ar gyfer cynllunio tymor hir yr ystâd yn disgyn ar gyfarwyddwr gweithredol ar lefel bwrdd mewn naw o'r 15 ymddiriedolaeth. Yn y chwech ymddiriedolaeth arall, roedd chyfarwyddwr ystâd neu reolwr yn gyfrifol am gynllunio tymor hir yr ystâd, yn adrodd yn uniongyrchol i'r prif weithredwr neu aelod arall y bwrdd.

8 Rydym yn argymell:

i fod Bwrdd Cyfarwyddwyr y GIG yn adolygu'r rôl, cyfrifoldebau a statws Ystadau Iechyd Cymru, cyn i'r cytundeb presennol ddod i ben ym mis Mawrth 2004, er mwyn penderfynu nodau a blaenoriaethau Ystadau Iechyd Cymru;

ii fod prif weithredwyr ymddiriedolaethau GIG Cymru yn sicrhau eu bod nhw'n cael defnyddio pobl ystâd broffesiynol â chanddynt gymhwysterau addas i gynghori ar faterion sy'n effeithio ar reolaeth a datblygiad yr ystâd o dan eu rheolaeth;

iii fod staff â chyfrifoldeb gweithredol o ddydd i ddydd i redeg a chynnal yr ystâd yn derbyn hyfforddiant proffesiynol a thechnegol priodol, a bod perfformiadau personél yr ystâd wrth gwrdd â'u cyfrifoldebau yn cael eu gwerthuso bob hyn a hyn.

## Systemau gwybodaeth ar gyfer asesu perfformiad rheoli ystâd

9 Prif nodweddion system ddiogel ar gyfer rheoli perfformiad yw gosod targedau perfformiad a mesur ac adrodd perfformiadau yn eu herbyn. Mabwysiadodd ymddiriedolaethau unigol ac awdurdodau iechyd GIG Cymru wahanol ddulliau a systemau ar gyfer casglu a chynnal gwybodaeth berthynol i'r ystâd o fewn eu sefydliadau eu hunain. Mae'r Cynulliad yn datblygu system reoli perfformiadau ar gyfer ystadau yn y GIG Cymru a gaiff ei gweithredu ym mis Ebrill 2002. Fe welsom:

- Fod Cyfarwyddiaeth y GIG yn bwriadu datblygu ystod o dargedau strategol ar gyfer rheol ystâd GIG Cymru ond nid yw wedi gwneud hynny hyd yma. Mae diffyg targedau strategol ar gyfer ystâd GIG Cymru ar wahân i'r rhai a nodir yn fanwl yng nghynllun strategol y Cynulliad ac yng nghynllun y GIG yn wendid sylweddol yn y fframwaith cyfredol ar gyfer rheoli perfformiad GIG Cymru.
- Mae lle i wella'r system bresennol o adrodd sut y rheolir perfformiad yr ystâd i'r Cynulliad, yn arbennig ynglŷn â chyfoesedd, ystod ac ansawdd yr wybodaeth a gasglwyd. Mae Cyfarwyddiaeth y GIG yn disgwyl y bydd y fframwaith rheoli perfformiad newydd ar gyfer ystâd GIG Cymru yn cael ei weithredu o 2002, er mwyn trafod llawer o'r materion a godwyd yn yr adran hon yn yr adroddiad.
- Mae'r modd yr adroddir ar berfformiadau rheoli ystâd o fewn ymddiriedolaethau ac awdurdodau GIG Cymru'n amrywio mewn ystod ac ansawdd. Mae pwyso a mesur perfformiad i raddau helaeth yn fater o ddymuniad a dewis lleol ac nid mater o weithredu rhigolaidd yw gwneud adroddiad ar berfformiad ar lefel bwrdd ac ni roddir iddo broffil digonol.
- Er fod ymddiriedolaethau GIG Cymru'n meincnodi i ryw raddau, ychydig o gysondeb yn eu dulliau a geir rhwng y gwahanol ymddiriedolaethau, gan wneud cymharu perfformiadau ar raddfa ehangach yn anodd.

10 Yr ydym yn argymell bod:

i prif weithredwyr yr ymddiriedolaethau yn derbyn cyfrifoldeb personol dros sicrhau fod adroddiadau data yr ymddiriedolaeth yn gyflawn, yn gywir, wedi eu diweddaru ac yn cael eu cyflwyno'n brydlon, a'u bod yn llofnodi'r adroddiadau i'r perwyl hwnnw, er mwyn atgyfnerthu perchnogaeth ac atebolrwydd;

ii adroddiadau ar berfformiad ystadau gan ymddiriedolaethau GIG Cymru i'r Gyfarwyddiaeth GIG yn cael eu helaethu i gynnwys y meysydd allweddol o addasrwydd gweithrediadol a'r defnydd o le;

iii Ystadau Iechyd Cymru yn sefydlu'r cyswllt angenrheidiol â'r cyrff priodol yn yr Alban a Gogledd Iwerddon er mwyn rhoi i GIG Cymru ddata cymharol ac ychwanegu at beth sydd eisoes ar gael am ymddiriedolaethau GIG yn Lloegr;

iv cyrff GIG Cymru a chanddynt ddaliadaeth eiddo yn ystyried arddel cyfres integredig o ddangosyddion perfformiad allweddol a gorfodol a mesurau o berfformiad rheoli ystâd; a

v yr allbynnau allweddol o wahanol systemau gwybodaeth ar reolaeth ystadau yn cael eu safoni cyn belled ag y bo'n bosib, o fewn yr ymddiriedolaethau GIG ac i drosglwyddo data o'r ymddiriedolaethau i Ystadau Iechyd Cymru ac i'r Gyfarwyddiaeth GIG, er mwyn sicrhau cysondeb.

## Perfformiad ystâd GIG Cymru

11 GIG Cymru yw perchnogion bron y cwbl o'r ystâd sydd yn eu meddiant ac, am resymau gweithredol, mae gan rai ymddiriedolaethau eiddo sydd yn eu meddiant, yn eu perchnogaeth neu ar brydles ac sydd y tu hwnt i'w ffiniau tiriogaethol syml. Mae gofynion y gwaith gweinyddol a chostau'n ymwneud â rheolaeth fewnol a rhyng-ymddiriedolaethol ar feddiant eiddo ar safleoedd aml-berchnogaeth yn ymddangos i ni yn faich ac yn gost ddiangen. Hefyd mae angen i berthnasau allanol tenant a pherchennog gael eu rheoli'n fwy gweithredol. Fodd bynnag, yn gyffredinol nid yw ymddiriedolaethau yn cadw asesiadau cyfamserol na chyson o eiddo unigol o fewn eu hystadau. Mae'n bwysig bod cyrff sy'n dal eiddo yn gwybod gwerth marchnad agored eu hystâd er mwyn gwneud penderfyniadau cadarn am reoli a datblygu'r ystâd.

12 Yn niffyg gwybodaeth gynhwysfawr a ddelir yn ganolog ar agweddau allweddol o berfformiad ystâd GIG Cymru, fe gafodd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru'r wybodaeth hon drwy gyfrwng holiadur a anfonwyd at holl ymddiriedolaethau ac awdurdodau iechyd GIG Cymru, a lanwyd gan bawb. Esgorodd hyn ar wybodaeth ar draws GIG Cymru ym meysydd allweddol cyflwr statudol, cyflwr corfforol, addasrwydd swyddogaethol, y defnydd a wneir o'r ystâd, a pherfformiad ynni. Dyma'r darganfyddiadau allweddol ym mhob maes:

- **Cyflwr statudol.** Gwael yw cyflwr yr ystâd o ran cwrdd â gofynion statudol. Dim ond hanner yr ystâd a ddelir gan ymddiriedolaethau GIG Cymru roddodd adroddiadau oedd wedi cwrdd yn llawn â gofynion iechyd a diogelwch statudol, gan gynnwys diogelwch rhag tân, pan roddwyd ein holiadur. Ar ben hynny, roedd rhan neu'r cyfan o'r ystâd mewn pum ymddiriedolaeth heb eu hadolygu ers dros dair blynedd. Ar waetha'r gwaith cyfredol ar arolygiadau iechyd a diogelwch, gan gynnwys gwaith arolygu diogelwch rhag tân gydag Ystadau Iechyd Cymru, mae gan ymddiriedolaethau'r GIG lawer i'w wneud i sicrhau ufudd-dod statudol.

- **Cyflwr corfforol.** Mae arolygon a wnaed gan ymddiriedolaethau'r GIG ar gyflwr corfforol eu hystâd yn dangos fod angen gwneud llawer o waith i gwrdd â nod y Cynulliad o sicrhau fod 90 y cant o'r ystâd weithgar yn gadarn ac yn ddiogel i'w rhedeg, a heb waethygu fawr ddim o bob golwg erbyn 2002-03. At ei gilydd, roedd llai na hanner yr ystâd a ddelid gan ymddiriedolaeth yn y cyflwr hwn.

- **Addasrwydd swyddogaethol.** Asesiad ymddiriedolaethau'r GIG oedd mai dim ond hanner eu hystâd oedd yn addas neu'n rhesymol addas i'w pwrpas, ac roedd tua phumed ran o ystadau'r ymddiriedolaethau o dan y safon dderbyniol o ran addasrwydd i'r pwrpas.
- **Gwenud defnydd o'r ystâd.** Aseswyd fod yn agos i chwarter o'r ystâd a arolygwyd heb ei ddefnyddio'n ddigonol neu'n wag. Ar sail yr wybodaeth a gasglwyd, rydym yn amcangyfrif y gellid osgoi costau rhedeg ystâd o gwmpas £25 miliwn y flwyddyn drwy wneud gwell defnydd o eiddo a ddefnyddir yn annigonol, gan leihau gofal a chynnal eiddo gwag i'r lleiaf posibl, a thrwy ddatgan fod eiddo'n anhanfodol ac ar gael i'w gwaredu. Rydyn ni'n cydnabod efallai bydd angen i ymddiriedolaethau'r GIG fynd i gostau ac ymdrin â chyfyngiadau gweithredol a gweinyddol er mwyn sylweddoli'r cynilion potensial yn ymarferol a bydd hyn yn cymryd amser i'w cyflawni.
- **Perfformiad ynni.** Yn erbyn targed y llywodraeth ganolog am leihad o 20% mewn traul ynni crai dros y ddegawd 1990-01 i 1999-2000, sicrhaodd ymddiriedolaethau GIG Cymru leihad o 8.7 y cant at ei gilydd. Petai'r ymddiriedolaethau wedi cyrraedd y nod amcangyfrifwn y byddai GIG Cymru wedi arbed cyfanswm o £12 miliwn mewn costau ynni dros y cyfnod deng mlynedd hwn.

13 Ôl-groniad gwaith cynnal a chadw yw'r cyfanswm mae cyrff sy'n dal eiddo yn amcangyfrif mae rhaid iddyn nhw wario er mwyn gwella eu heiddo i gyflwr Gradd B (h.y. bod yn gydsyniol â gofynion statudol, cadarn, yn weithredol ddiogel ac yn dangos dim ond ychydig o ddirywiad) yn y categorïau cyflwr a diogelwch statudol gan gynnwys costau uwchraddio ynni. Ar sail yr adroddiad ar berfformiad ystadau ymddiriedolaethau'r GIG am 1999-2000, mae ystadau iechyd Cymru wedi cyfri'r gost o gyrraedd Categori B i fod £318 miliwn yn 1999-2000. Adroddodd ymddiriedolaethau i Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru byddai'r gost o gyrraedd Categori B yn £365 miliwn, at 31 Mawrth 2000, a bod nhw wedi clustnodi £158 miliwn dros y pum mlynedd nesa i leihau ôl-groniad gwaith cynnal a chadw.

14 Dyma ein hargymhellion:

i bod cyrff sy'n dal eiddo yn sicrhau bod yr wybodaeth ar gyflwr statudol a chyflwr mor gyflawn a diweddaredig â phosib a bod gwariant er gwella eiddo yn rhan o strategaeth gynhwysfawr i wella ystadau ar draws Cymru;

ii bod y Cynulliad a GIG Cymru yn ystyried rhinwedd mewn arddel safon gychwynnol ar gyfer cyflwr (dyweder cyrraedd cyflwr gradd C) wrth asesu gofynion ôl-groniad gwaith cynnal a chadw er mwyn helpu i flaenoriaethu gwario ar welliannau gwaith, gan gymryd i ystyriaeth yr angen i osgoi buddsoddiad sylweddol ar adeiladau na fydd eu hangen yn y tymor hir;

iii Argymhellwn fod cyrff a chanddynt ddaliadaeth eiddo yn sicrhau fod eu gwybodaeth ar addasrwydd gweithrediadol mor gyflawn a diweddaredig â phosib a bod gwariant i wella addasrwydd i'r pwrpas yn rhan o strategaeth gynhwysfawr i wella ystadau;

iv Ymddiriedolaethau GIG yn cynnal arolygon rheolaidd ar y defnydd o le yn yr holl ystâd ac yn diweddaru'r cofnodion yn rheolaidd ar sail redegol (yn ychwanegol at yr adolygiad cyfredol ar y defnydd o adeiladau sy'n cael ei wneud dan Gynllun GIG Cymru); dylid rhoi'r canlyniadau i fyrddau gweithredol yr ymddiriedolaethau o leiaf yn flynyddol; a

v Ymddiriedolaethau yn rhoi blaenoriaeth i fesurau arbed ynni, yn syml o hyrwyddo ymwybyddiaeth o draul ynni i fuddsoddi mewn cyfarpar sy'n defnyddio ynni'n effeithlon, gan y byddai hyd yn oed lleihad blynyddol o 2-3% yn GIG Cymru yn ei gyfanrwydd yn arbed rhwng £200,000 a £300,000 bob blwyddyn. Rydyn ni'n cydnabod efallai bydd rhaid i ymddiriedolaethau'r GIG wario er mwyn arbed eu perfformiad ynni.

## Casgliadau Cyffredinol

15 Mae rheolaeth ystâd GIG Cymru wedi'i rannu rhwng amryw gyrff. Mae diffyg strategaeth ystâd trosfwaol ar draws Cymru gyfan, datblygiad ysbeidiol o strategaethau ystâd lleol ar lefel ymddiriedolaeth ac awdurdod iechyd a chyfarwyddyd anghyflawn ynglŷn â rheoli ystâd. Mae personél rheoli ystâd proffesiynol yn brin o amgylch y gwahanol gyrff iechyd. Ar ben hynny, mae angen adolygu ac egluro swyddogaeth Ystadau Iechyd Cymru, y corff mewnol sy'n gyfrifol am gynnig gwasanaethau rheoli ystâd proffesiynol a chefnogaeth dechnegol i'r cyrff sy'n dal eiddo GIG Cymru ac i Gyfarwyddiaeth y GIG.

16 Nid oes gan Gyfarwyddiaeth y GIG ddigon o wybodaeth reolaeth am ystâd GIG Cymru i fod yn sail i'w blaenoriaethau strategol a gwariant. Tra bo rhai ymddiriedolaethau'n rhoi gwybodaeth yn flynyddol i Ystadau Iechyd Cymru, mae'r wybodaeth hon yn gymharol gyfyngedig, a heb ei gwirio, ac ni fydd gwaith arolygu'n cael ei ddiweddaru ar sail systematig. Mae cyflwr yr ystâd yn achosi pryder gan nad yw'r gofynion statudol yn cael eu cyflawni'n llawn yn yr holl ymddiriedolaethau. Mater o bryder hefyd yw'r defnydd a wneir o'r stad, a gwaith arolygu'r ymddiriedolaethau hyd yma'n dangos tanddefnyddio sylweddol a chyfle posibl ar gyfer rhesymoli ac arbed costau. Mae perfformiad yr ystâd o ran rheoli ynni'n gyffredinol yn is na'r targedau cenedlaethol, a bydd y mater hwn yn dod yn bwysicach gyda dyfodiad ardoll rheoli hinsawdd.

17 Mae Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru'n cydnabod fod cyfarwyddiaeth y GIG ar ganol datblygu dull strategol newydd, gan adolygu swyddogaeth Ystadau Iechyd Cymru a gosod targedau ar gyfer cynhyrchu strategaethau gan ymddiriedolaethau'r GIG. Cydnabyddwn hefyd y gwaith pwysig a wneir gan y staff o fewn y sector i drafod gwendidau cydnabyddedig. Rydym yn cefnogi Cyfarwyddiaeth y GIG a GIG Cymru'n arbennig wrth ddatblygu a gweithredu trefniadau newydd ar gyfer rheoli perfformiad ystâd, a weithredir o Ebrill 2002 ymlaen.

# RHAN 1: Cyflwyniad

## Ystâd GIG Cymru - cefndir

1.1 Mae asedau ystâd y Gwasaneth Iechyd Gwladol yng Nghymru (GIG Cymru) yn bodoli i gefnogi'r ddarpariaeth o wasanaethau gofal iechyd yng Nghymru. Defnyddir ysbytai, canolfannau iechyd a chlinigau GIG Cymru gan yn agos i 90,000 o bobl bob wythnos, gyda thua 15,000 o welyau ar gyfer cleifion a'r rhain yw'r amgylchedd gweithiol ar gyfer ei 55,000 o staff a gyflogir yn uniongyrchol. Mae rheolaeth effeithiol ac effeithlon ystâd GIG Cymru yn hanfodol ar gyfer darpar gwasanaethau gofal iechyd o ansawdd gan bobl broffesiynol mewn gofal iechyd i'r bobl sydd â'u hangen.

1.2 Mae ystâd GIG Cymru'n meddu ar fwy na 1000 hectar o dir gyda thua 900 o eiddo. Mae'r rhain yn cynnwys tua 130 ysbyty, dros 350 o ganolfannau iechyd a chlinigau, 90 gorsaf ambiwlans, ac amryw gyfleusterau gweinyddu a chynnal, gan gynnwys dros 80 o dai. Mae cyfanswm arwynebedd tir adeiladu'r ystâd ychydig o dan 2 filiwn metr sgwâr. Mae tua 80 y cant o hwn mewn ysbytai llym a di-lym a'r 20 y cant arall mewn canolfannau iechyd a chlinigau, gorsafoedd ambiwlans a thai'r staff. Mae ystâd adeiledig GIG Cymru tua degfed maint yr un yn Lloegr a thua hanner maint yr un yn yr Alban. Yn ystod y degawd diwethaf, mae nifer y safleoedd iechyd yng Nghymru wedi'i gwtogi o'r chwarter, gan gynnwys gwaredu dros 40 ysbyty ac yn agos i 50 canolfan iechyd a chlinig, yn bennaf oherwydd datblygiadau yn y ddarpariaeth o wasanaethau gofal iechyd.


1.3 Defnyddir asedau ystâd ymddiriedolaethau GIG Cymru'n bennaf i ddarparu gwasanaethau eilraddol (h.y. ysbyty cyffredinol), trydyddol (ysbyty arbenigol) a gofal yn y gymuned. Partneriaethau meddygon yn hytrach na GIG Cymru sydd berchen ar lawer o'r ystâd a ddefnyddir mewn gofal cychwynnol (h.y. meddygfeydd Meddygon Teulu lleol). Amcangyfrifir fod gwerth defnydd presennol ystâd GIG Cymru tua £1.2 biliwn, sy'n cyfateb i ddeg gwaith gwerth eiddo Stadiwm y Mileniwm. Oddi ar 1990-91 mae'r Swyddfa Gymreig gynt a Chynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad) wedi rhoi rhwng £70 miliwn a £130 miliwn y flwyddyn i'w gwario ar fuddsoddi cyfalaf yn yr ystâd. Ar ben hynny, mae ymddiriedolaethau ac awdurdodau Iechyd y GIG yn gwario dros £250 miliwn y flwyddyn i redeg a chynnal eu ystâd. Mae ymddiriedolaethau ac awdurdodau iechyd GIG Cymru hefyd yn amcangyfrif fod angen gwario o leiaf £320 miliwn eto i wella'u hasedau eiddo i fod mewn cyflwr cwbl ddiogel a chadarn o ran gweithredu.

1.4 Nodweddion allweddol yr asedau ystâd a ddelir gan ymddiriedolaethau ac awdurdodau Iechyd GIG Cymru yw:

- Mae tua 95 y cant o'r eiddo wedi'u perchnogi neu eu meddiannu gan 15 ymddiriedolaeth GIG Cymru, a'r gweddill wedi'u perchnogi neu eu meddiannu gan yr awdurdodau iechyd neu'r Cynulliad;
- mae nifer fawr o ysbytai cymharol fach a dim ond tri o'r tri deg o ysbytai llym sydd â mwy na 600 gwely (gan gynnwys Ysbyty Athrofaol Cymru, Caerdydd gyda thros fil) ac mae yn agos i'r hanner â llai na 300 gwely, a gall fod cyn lleied ag wyth gwely mewn ysbytai cymunedol;
- Mae mwy na thri chwarter o'r ystâd adeiledig dros 20 mlwydd oed ac fe godwyd un o bob deg eiddo cyn 1900 **(Ffigur 1)**.

**Ffigur 1**

**Oedran ystâd y GIG yng Nghymru**




*Tarddiad: Holiadur y Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru*

1.5 Dros y degawd diwethaf mae ystâd GIG Cymru wedi'i reoli yng nghyd-destun newidiadau gweinyddol a datblygiadau ehangach yn y Deyrnas Unedig. Mae'r rhain wedi cynnwys:

- cychwyn ymddiriedolaethau hunan lywodraethol y GIG dros y cyfnod o 1991 i 1996, yn dilyn Deddf y GIG a Gofal yn y Gymuned 1990, a arweiniodd, ymhlith pethau eraill, at y canlynol:
  - trosglwyddo perchnogaeth asedau eiddo gweithgar a gweithredol (h.y. y rhai â defnydd gwasanaeth dros dymor hir) i ymddiriedolaethau adeg eu ffurfio,
  - yr angen i ymddiriedolaethau ennill llog o chwech y cant ar asedau perthnasol, tir ac adeiladau'n bennaf; a
  - hawlio codiannau cyfalaf ar gyfer defnyddio'r ystâd, i gynyddu'r ymwybyddiaeth o'r gost o berchnogi asedau a gweithredu fel cymhelliad ar gyfer gwaredu asedau eiddo diangen;
- cael gwared o wahanol awdurdodau iechyd dosbarth ac awdurdodau gwasanaethau iechyd teuluoedd o dan Ddeddf Awdurdodau Iechyd 1995, a sefydlu awdurdodau iechyd amlbwrpas a gosod cyfrifoldeb ar yr awdurdodau iechyd hyn ar gyfer rheoli'r rhan honno o ystâd GIG Cymru na throsglwyddwyd i ymddiriedolaethau (a elwir yr ystâd weddilliol)
- ailffurfio Ymddiriedolaethau GIG Cymru yn ddiweddar yn yr 1990au, gyda nifer o cyfuniadau a arweiniodd erbyn Ebrill 2000 at ffurfio cyfanswm o 15 ymddiriedolaeth, sef, 13 ymddiriedolaeth gyfun llym a'r gymuned, un ymddiriedolaeth arbenigol ac un ymddiriedolaeth gwasanaethau ambiwlans, gan arwain at beth eiddo'n newid dwylo gynifer â thair gwaith mewn saith mlynedd;
- y gyfres ddiweddaraf o ddiwygiadau yn y GIG, yn dilyn y Papur Gwyn 1998 Rhoi'r Cleifion yn Gyntaf a'r Ddeddf Iechyd 1999, oedd yn cynnwys
  - dileu'r farchnad fewnol o fewn y GIG ac o gronfeydd Meddygon Teulu,
  - sefydlu'r Comisiwn newydd i Wella Iechyd ar draws y GIG yn Lloegr a Chymru, i hybu ymarfer da a gofal o ansawdd uchel,
  - a chychwyn Rhaglenni Gwella Iechyd, a lunir gan yr awdurdodau iechyd ar y cyd ag ymddiriedolaethau'r GIG, awdurdodau lleol a grwpiau iechyd lleol, fel mecanweithiau newydd ar gyfer penderfynu gofynion gofal iechyd yn ardal pob awdurdod iechyd ac i fod yn gyd-destun strategol ar gyfer datblygu ystadau ymddiriedolaethau'r GIG yn yr ardaloedd hynny.

## Polisi a nodau'r Cynulliad ar gyfer ystâd GIG Cymru

1.6 Fe sefydlodd y Swyddfa Gymreig gynt Broject Strategaeth Corfforaethol GIG Cymru ym mis Mai 1998 i gynnal adolygiad gwasanaeth ar draws Cymru gyfan. Amcan yr arolwg oedd cynorthwyo GIG Cymru i ddatblygu ymdeimlad cliriach o'r cyfeiriad tymor hir a sicrhau ei gynaladwyedd tymor hir. Arweiniodd hyn at Gynllun GIG Cymru Gwella Iechyd yng Nghymru a gymeradwywyd gan y Cynulliad ym mis Mawrth 2001. Goleuwyd datblygiad y cynllun a'i hybu gan strategaethau penodol ar gyfer gwasanaethau iechyd yng Nghymru **(Ffigur 2)**. Gall y syniadau yma ar gyfer datblygu'r gwasanaeth gael effaith posibl ar gyfer natur, maint a lleoliad eiddo a chyfleusterau gofal iechyd yng Nghymru yn y dyfodol. Yn benodol ynglŷn â'r ystâd, mae cynllun GIG Cymru'n datgan fod gan bobl Cymru, a'r bobl

**Ffigur 2**

### Prif gychwyniadau strategaeth gofal iechyd ar waith

Strategaeth gwasanaethau llym. Sefydlwyd Grŵp Datblygu Gwasanaethau Llym ym mis Mai 1999 fel rhan o Broject Strategaeth Gorfforaethol GIG Cymru wrth ymateb i bryderon ynglŷn â dyfodol gwasanaethau ysbyty llym yng Nghymru. Yn ei adroddiad Mynediad a Rhagoriaeth (Mehefin 2000) gwnaeth y grwp nifer o argymhellion am y modd y dylid cyflwyno'r gwasanaethau hyn yn y dyfodol a'r angen am gynyddu buddsoddiad cyfalafol yn yr ystâd.

Strategaeth Gofal Cychwynnol. Deilliodd datblygiad Strategaeth Gofal Cychwynnol ar gyfer GIG Cymru o waith Grŵp Datblygu Gwasanaethau Llym. Mae'n trafod maint a datblygiad gofal cychwynnol yng Nghymru (h.y. y gwasanaethau gofal iechyd a roddir yn bennaf gan feddygon teulu), gan gynnwys swyddogaeth y 22 grwp iechyd lleol yng Nghymru. Cyhoeddwyd dogfen ymgynghorol gan y grŵp ym mis Gorffennaf 2001.

Strategaeth iechyd meddwl oedolion. Datblygiad Strategaeth Iechyd Meddwl i Oedolion newydd ar gyfer Cymru i ddisodli Strategaeth Iechyd Meddwl Cymru Gyfan, a ysgrifennwyd yn 1989 pan roddid y rhan helaethaf o ofal iechyd meddwl mewn sefydliadau mawr. Cyhoeddwyd y strategaeth ym mis Medi 2001 yn dilyn ymgynghoriadau.

*Ffynhonnell: Cynulliad Cenedlaethol Cymru*

broffesiynol mewn gofal iechyd sy'n gofalu amdanyn nhw, yr hawl i ddisgwyl derbyn gofal iechyd mewn amgylchedd modern sy'n cael ei gynnal yn dda.

1.7 Er pan ymgymerodd y Cynulliad â gweinyddu GIG Cymru, mae Cyfarwyddiaeth GIG y Cynulliad wedi datblygu dull strategol newydd tuag at reoli ystâd GIG Cymru. Yn 1999, fe sefydlodd Grŵp Llywio Strategaeth Ystâd i adolygu rheolaeth ystâd GIG Cymru. O dan ambarel y grŵp llywio hwn, sefydlodd Cyfarwyddiaeth y GIG dîmau adolygu penodol i ystyried datblygiad strategaethau ystâd, rheoli perfformiad ystâd a'r trefniadau ar gyfer gwaredu eiddo. Mae'r timau adolygu hyn wrth eu gwaith o hyd. Ym mis Mai 2001, fel rhan o weithredu Cynllun GIG Cymru, sefydlodd Cyfarwyddiaeth y GIG grŵp tasg a gorffen yn ymwneud â chyllid ac asedau ac mae hwnnw wedi ymgymryd â'r cyfrifoldeb o uwcholygu cwblhau'r adolygiadau o ystâd GIG Cymru.

1.8 Ym mis Awst 2000, ar ôl ymgynghori â phrif weithredwyr yr awdurdodau iechyd a'r ymddiriedolaethau, dyroddodd Cyfarwyddiaeth y GIG ddogfen gylchynol ar Bolisi Rheoli Ystâd ar gyfer GIG Cymru at ymddiriedolaethau ac awdurdodau iechyd GIG Cymru. Roedd hwn yn eu cynghori ynglŷn â pholisi rheoli ystâd y Cynulliad a'r gweithredu a ddisgwylid ar eu rhan i roi'r polisi hwn ar waith. Mae polisi rheoli ystâd y Cynulliad yn anelu at sicrhau:


- fod ystâd GIG Cymru'n cael ei diffinio gan anghenion pobl Cymru o ran gwasanaethau iechyd a gofal iechyd;
- darparu ystâd iechyd sy'n cwrdd ag anghenion y gwasanaeth, yn cael ei ddefnyddio'n llawn, yn addas i'r amcan ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol a statudol;
- a bod y buddsoddiad cyfalaf yn strategol gadarn ac yn cael ei gyfarwyddo yn y modd cywir i gwrdd ag anghenion y gwasanaeth.

## Cyfrifoldebau ac atebolrwydd rheoli ystad GIG Cymru

1.9 Oddi ar 1 Gorffennaf 1999, mae'r Cynulliad wedi bod yn gyfrifol am weinyddu GIG Cymru. Ar hyn o bryd mae'r Cynulliad yn cyflawni'r swyddogaeth hon drwy gyfrwng y pum awdurdod iechyd yng Nghymru, sy'n gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau iechyd ar gyfer eu poblogaeth breswyl, a thrwy 15 ymddiriedolaeth GIG Cymru sy'n darparu'r gwasanaethau hyn. Y prif wasanaethau iechyd a roddir yn uniongyrchol gan yr ymddiriedolaethau yw gofal llym a gofal meddygol yn y gymuned, gan gynnwys gwasanaethau ysbyty cleifion mewnol ac allanol, gwasanaethau meddygol arbenigol a gwasanaethau ambiwlans ond heb gynnwys gwasanaethau gofal cychwynnol a roddir ym meddygfeydd Meddygon Teulu. Mae'r crynodeb dilynol o gyfrifoldebau rheoli ystâd ac atebolrwydd ar ffurf diagram yn **Ffigur 3**.

**Ffigur 3**

**Y berthynas rhwng cyrff iechyd Cymru sy'n gyfrifol am ystâd GIG Cymru**





*Ffynhonnell: Swyddfa Archiwilio Genedlaethol Cymru*

- Mae **Cyfarwyddiaeth GIG y Cynulliad** yn gyfrifol am ddefnydd effeithlon, effeithiol ac economaidd o holl adnoddau GIG Cymru, gan gynnwys yr ystâd. Mae ganddo gyfrifoldeb cyffredinol dros ddatblygu a rheoli ystâd GIG Cymru. Mae prif weithredwyr awdurdodau iechyd ac ymddiriedolaethau GIG Cymru yn atebol yn uniongyrchol i Gyfarwyddwr GIG y Cynulliad am stiwardio arian ac asedau cyhoeddus o dan eu rheolaeth.
- Mae **Awdurdodau Iechyd Cymru'n** gyfrifol am asesu anghenion gofal iechyd y boblogaeth yn eu hardal, gan benderfynu ar leoliadau gwasanaethau gofal iechyd a datblygu rhaglenni gwella iechyd i gynllunio a blaenoriaethu gwasanaethau iechyd ar gyfer eu hardaloedd. Fe all hyn arwain at newidiadau yn y gwasanaeth fydd yn arwain at ddatganiad fod eiddo'n ddiangen i'r gofynion. Mae awdurdodau iechyd yn gyfrifol am reoli adnoddau, ac asedau'r ystad o dan eu rheolaeth yn effeithlon, effeithiol ac economaidd; yn bennaf ystad heb ddefnydd gofal iechyd tymor hir.

**Ffigur 4**

**Ymddiriedolaethau GIG Cymru**




Nodyn: 1. Mae Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlansau Cymru, a leolir yn a Gogledd, yn rhoi gwasanaeth ambiwlans i Gymru gyfan.

*Ffynhonnell: Ystadau Iechyd Cymru*

- Mae **Ymddiriedolaethau GIG Cymru** yn gyfrifol am reolaeth strategol a chynhaliaeth weithredol asedau ystâd o dan eu rheolaeth a sicrhau cydsyniad gyda gofynion statudol perthnasol. Mae nhw'n gyfrifol am reoli adnoddau ac asedau eu hystâd mewn ffordd effeithlon, effeithiol ac economaidd, yn bennaf ysbytai llym a chymunedol gyda defnydd gofal tymor hir ac hanfodol.

- Mae **Ystadau Iechyd Cymru'n** gyfrifol am ddarparu ystod o wasanaethau proffesiynol creiddiol a chefnogaeth dechnegol yn ymwneud ag ystâd GIG Cymru ac yn trafod materion rheolaeth, adeiladu a pheirianyddol, i gyrff sy'n dal eiddo'r GIG a Chyfarwyddiaeth GIG y Cynulliad. Mae'n gorff aml-ddisgyblaethol nad yw'n gwneud elw o fewn GIG Cymru, mae'n darparu gwybodaeth arbenigol yn ôl y galw.

1.10 Mae **Ffigur 4** yn dangos ffiniau awdurdodau iechyd a'r ymddiriedolaethau yng Nghymru, gyda niferoedd yr ysbytai llym, cymunedol ac iechyd meddwl fesul ardaloedd yr ymddiriedolaethau. Cyhoeddodd Cynllun GIG y Cynulliad y bwriad i ddiddymu awdurdodau iechyd Cymru erbyn mis Ebrill 2003, ac mae manylion y newid strwythurol yn dal ar y gweill.

## Maes a methodoleg astudiaeth Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru

1.11 Yn erbyn y cefndir hwn, ceisiodd yr archwiliad gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru sefydlu pa mor dda yr oedd GIG Cymru'n rheoli asedau'i ystâd. Canolbwyntiwyd ar y canlynol:

- adolygu strategaeth rheoli ystâd a'r trefniadau, ar lefel y Cynulliad, ymddiriedolaethau ac awdurdodau iechyd y GIG (Rhan 2);

- ac asesu'r wybodaeth am reoli'r ystâd a pherfformiad rheoli'r ystâd (Rhan 3).

1.12 At ddibenion yr astudiaeth fe ddiffiniwyd ystâd GIG Cymru fel asedau'r tir a'r adeiladau a'r gweithfeydd cysylltiol a berchnogid a/neu a ddelid gan ymddiriedolaethau ac awdurdodau iechyd GIG Cymru. Ni roddwyd ystyriaeth i reolaeth asedau ystâd a ddelid gan feddygon teulu. Mae'r adroddiad hwn yn uwcholwg o reolaeth ystâd GIG Cymru ar ddechrau'r unfed ganrif ar hugain, mwy na mil o flynyddoedd oddi ar i Gyfreithiau Hywel Dda wneud y ddarpariaeth gyntaf i dalu am ofal i bobl sâl yng Nghymru. Nodir manylion ein methodoleg yn Atodiad 1.

1.13 Wrth wneud ein harchwiliad, fe roesom ystyriaeth hefyd i'r argymhellion a wnaed gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a archwiliodd reolaeth ystâd y GIG yn Lloegr a'r Alban a Chymru yn 1988. Ceir crynodeb o'i gasgliadau a'i argymhellion, ynghyd â sylwadau ar y sefyllfa bresennol yng Nghymru yn Atodiad 2.

1.14 Proses barhaus yw rhesymoli ystâd ac mae'n ymwneud â darparu eiddo a chyfleusterau gofal iechyd newydd i gwrdd ag anghenion presennol a newydd yn ogystal â gwaredu eiddo nad oes ei hangen o ran gofynion. Mae moderneiddio ac adnewyddu'r ystâd a nodi a gwaredu eiddo diangen yn nodwedd gynhenid o gynllunio strategol gan GIG Cymru. Bydd y pwnc hwn yn destun archwiliad pellach gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru, ac fe adroddir y canlyniadau i'r Cynulliad yng nghyflawnder yr amser.

# RHAN 2: Strategaeth yr ystâd a threfniadaeth rheoli

2.1 Mae mabwysiadu dull o weithredu strategol tuag at reoli ystâd GIG Cymru yn allweddol er mwyn sicrhau y bydd y penderfyniadau a wneir ynglŷn â'r defnydd cyfredol a'r datblygiad yn y dyfodol o briodweddion gofal iechyd yn rhai cytbwys. Yn niffyg fframwaith strategol cadarn digonol, mae yna berygl i benderfyniadau ar ddatblygu a rheoli ystâd gael eu cymryd mewn modd digyswllt. Mae hyn yn arwain at berygl y gall y buddsoddiad ariannol a wneir wrth wella ac uwchraddio'r ystâd gael ei gamgyfeirio ac o ganlyniad nid yw'r trefniadau a'r staffio ar gyfer rheoli'r ystâd ddim mor effeithiol ac effeithlon ag y gallen nhw fod.

2.2 Mae'r rhan yma o'r adroddiad yn adolygu:

- y cynnydd a wnaed wrth ddatblygu a gweithredu strategaethau ystâd ar gyfer GIG Cymru; a
- threfniadaeth a staffio swyddogaethau rheoli yr ystâd er mwyn galluogi GIG Cymru i gyflenwi amcanion strategol.

## Datblygiad a gweithredu strategaethau ystâd ar gyfer GIG Cymru

2.3 Mae cyfarwyddyd gan y Swyddfa Gymreig a'r Cynulliad dros y blynyddoedd diweddar, a dynnodd ar ymarfer da o reolaeth ystâd a gyhoeddwyd gan Weithgor y GIG yn Lloegr, wedi pwysleisio yr angen yn gyson am gyrff GIG sydd yn dal ac yn rheoli eiddo i ddatblygu a chynnal strategaethau ystâd cadarn. Yn ogystal â hyn, mae polisi rheoli ystâd y Cynulliad ar gyfer GIG Cymru yn gofyn i bob corff GIG Cymru sydd yn berchen ar eiddo gael strategaeth ystâd briodol sydd yn adlewyrchu amcanion polisi'r Cynulliad, sydd yn gyraeddadwy o ran gallu a phris, ac yn dangos gwerth am arian.


2.4 Anghenion gwasanaeth gofal iechyd yw'r prif ysgogiad tu ôl i ddatblygiad strategaethau ystâd gan gyrff GIG Cymru sydd yn berchen ar eiddo. Prif amcan strategaeth ystâd yw rhoi fframwaith cryf i gyrff sydd yn berchen ar eiddo fydd yn eu caniatáu i reoli'r defnydd o'u hasedau eiddo, cynllunio buddsoddiad cyfalaf yn y dyfodol er mwyn moderneiddio'r ystâd, ac i ymateb yn gyflym ac yn hyblyg i unrhyw newid. Mae cael fframwaith strategol cryf yn hanfodol ar gyfer ystâd GIG Cymru er mwyn sicrhau fod yr adeiladau ar gyfer gofal iechyd a'r cyfleusterau o ansawdd dderbyniol, wedi'u lleoli yn addas ac yn y cyflwr iawn i gefnogi trosglwyddo gwasanaeth gofal iechyd, a bod yr adnoddau priodol yn cael eu cyfeirio tuag at reolaeth yr ystâd.

## Cynnydd gyda datblygu a gweithredu polisi rheoli ystâd y Cynulliad a strategaeth ar gyfer GIG Cymru.

2.5 Cyhoeddodd Cyfarwyddiaeth y GIG bolisi rheoli ystâd y Cynulliad ar gyfer GIG Cymru ym mis Awst 2000, a rhoddodd gyngor hefyd i ymddiriedolaethau GIG ac awdurdodau iechyd ar y camau fyddai'n ofynnol iddyn nhw eu cymryd er mwyn gweithredu'r polisi hwn (gweler paragraff 1.8). Yn ogystal â hyn, mae Cyfarwyddiaeth y GIG, mewn ymgynghoriad â'r cyrff sydd yn berchen ar eiddo yng Ngwasanaeth Iechyd Genedlaethol Cymru, wedi paratoi cynllun gwaith strategaeth ystâd er mwyn rhoi cyfarwyddyd ar sut i weithredu polisi rheoli ystâd y Cynulliad. Mae'r cysylltiadau sydd rhwng y dogfennau polisi a chyfarwyddyd a'r strategaethau sydd gan ymddiriedolaethau ac awdurdodau iechyd GIG lleol i'w gweld yn **Ffigur 5**.

**Ffigur 5**

**Dogfennau allweddol yn llywodraethu ar reolaeth a datblygiad ystâd GIG Cymru**




*Ffynhonnell: Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol*

2.6 Adolygwyd cynllun gwaith strategaeth ystâd Cyfarwyddiaeth y GIG gennym ac fe welwyd bod:

- y cynllun gwaith yn iach o ran ei ddull yn y cyswllt ei fod yn sôn am holl agweddau allweddol rheoli ystâd (e.e. datblygu strategaethau ystâd, systemau gwybodaeth rheoli ystâd a systemau rheoli perfformiad), mae'n blaenoriaethu gweithredoedd sydd wedi eu dynodi, ac mae'n penodi'r dyddiadau targed a'r allbynnau sydd eu hangen ar gyfer yr eitemau hyn;
- mae cynllunio a gweithredu'r gwaith penodol a restrir yn y cynllun wedi cymryd yn hirach nac a ddisgwylid yn wreiddiol, gyda dyddiadau targed mynegol yn cael eu newid yn gynyddol (gweler **Ffigur 6** am enghreifftiau), ac mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith mai dogfen fyw yw'r cynllun gwaith.

2.7 Mae'r Cynulliad wedi datblygu a chyhoeddi, mewn nifer o ffynonellau, amryw nodau, amcanion, cyllidau a thargedau traws-Gymru mewn perthynas â rheolaeth ystâd GIG Cymru. Fodd bynnag, does gan Gyfarwyddiaeth GIG y Cynulliad yr un ddogfen strategaeth ystâd trosfwaol ar gyfer GIG Cymru, i gyflenwi ei pholisi rheoli ystâd ac i roi cyfarwyddyd cydgyfnerthedig o'r copa i lawr er mwyn rhoi gwybod i ddatblygiad strategaethau ystadau 'gwaelod i fyny' gan ymddiriedolaethau GIG ac awdurdodau iechyd. Strategaethau ar gyfer rheoli gwybodaeth a thechnoleg yw'r modelau ar gyfer y fath ddogfen, Gwybodaeth Well - Iechyd Gwell, a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gymreig gynt ym Mis Mawrth 1999 a Strategaeth Adnoddau Dynol GIG y Cynulliad a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2000.

2.8 Comisiynwyd Ystadau Iechyd Cymru gan y Gyfarwyddiaeth GIG i wneud gwaith paratoadol ar strategaeth ystâd lefel uchel. Mae'n fwriad gan y Gyfarwyddiaeth GIG i gynhyrchu drafft o gynllun datblygu ystâd cenedlaethol ar gyfer GIG Cymru erbyn diwedd Mawrth 2002.

**Ffigur 6**

## Cynnydd a wnaed ag eitemau cynllyn gwaith detholedig

Adolygiad strategaeth gwaredu eiddo (gwaith blaenoriaeth 1) Mae hwn yn adolygiad o'r trefniadau presennol, cyfarwyddyd a chymhellion ar gyfer adnabod, rheoleiddio a gwaredu eiddo sydd dros ben yn ystâd GIG Cymru. Amserlen cwblhau gwreiddiol hwn oedd Medi 2000, ac fe baratôdd y tîm adolygu adroddiad drafft ym mis Ionawr 2001 ac adroddiad diwygiedig ym mis Mehefin 2001, yn adlewyrchu sylwadau Grŵp Llywio Strategaeth Ystâd. Cymeradwywyd argymhellion yr adroddiad gan weinidogion y Cynulliad ym mis Hydref 2001.

System reoleiddio perfformiad (gwaith blaenoriaeth 2) Datblygiad system rheoli perfformiad ar gyfer ystâd GIG Cymru, wedi ei seilio ar fodel a ddatblygwyd yn Lloegr gan Ystadau GIG ac a dynnodd ar ddangosyddion perfformiad presennol a newydd. Bwriadwyd cynnal adolygiadau rheoli perfformiad ar gyfer cyrff sydd yn berchen ar eiddo yn GIG Cymru ar gyfer diwedd 2000-01 ond bwriedir nawr sefydlu'r rhain yn ystod 2001-02. Mae tîm rheoli perfformiad ac adolygu tasgau y grŵp llywio strategaeth ystad wedi cynhyrchu adroddiad ar gyflwyno system rheoleiddio perfformiad ac adolygu ar gyfer Ystâd GIG Cymru ym mis Ebrill 2001. Cymeradwywyd argymhellion yr adroddiad gan weinidogion y Cynulliad ym mis Awst 2001.

Map adnodd eiddo (gwaith blaenoriaeth 3) Dyma ddatblygiad map adnodd ar gyfer asedau eiddo GIG Cymru (gan gynnwys y rhai hynny a berchnogir gan gyrff-bartneriaid sydd yn berthnasol i ofal iechyd a chymdeithasol) er mwyn darparu cofnod cynhwysfawr a chyfoes o ystâd GIG Cymru a'i bartneriaid gwasanaeth. Yn wreiddiol bwriadwyd ei gwblhau ym mis Hydref 2000, ond roedd briff yr ymarfer o hyd yn cael ei ddatblygu gan Gyfarwyddiaeth y GIG ym mis Gorffennaf 2001 cyn cynnal ymgynghorion ag awdurdodau lleol, mudiadau gwirfoddol a phartneriaid gwasanaeth eraill.

**Sylwer:** Mae Blaenoriaeth 1 yn uchel, a blaenoriaeth 3 yn un isel. Mae drafft diweddara'r cynllun gwaith yn cynnwys pedair gweithred blaenoriaeth 1, dwy weithred blaenoriaeth 2 a thair gweithred blaenoriaeth 3.

*Ffynhonnell: Drafft o Gynllun Gwaith Strategaeth Ystâd GIG Cymru.*

### Cyfarwyddyd ar ddatblygu strategaethau ystâd sydd ar gael i ymddiriedolaethau ac awdurdodau iechyd GIG Cymru

2.9 Cyfrifoldeb allweddol gan Gyfarwyddiaeth GIG y Cynulliad yw i roi cyfarwyddyd ar faterion yn ymwneud â rheoli ystâd a materion cysylltiedig eraill i gyrff sydd yn berchen ar eiddo o fewn GIG Cymru. Mae Ystadau Iechyd Cymru yn cefnogi Cyfarwyddiaeth y GIG yn hyn o beth. Mae bron y cyfan o'r cyfarwyddyd ar reoli ystâd a ledaenir yng Nghymru yn gyfarwyddyd ar draws y GIG, neu wedi ei seilio ar gyfarwyddyd ar draws y GIG, wedi ei ddosbarthu o dan glawr cylchrediadau iechyd Cymreig neu Lythyrau Ystadau Iechyd Cymreig. Mae **Ffigur 7** yn amlinellu'r cyfarwyddyd ar rheoli ystâd allweddol sydd ar gael i ymddiriedolaethau GIG ac i awdurdodau iechyd yng Nghymru.

2.10 Ers i'r cynulliad gymryd cyfrifoldeb dros weinyddu GIG Cymru, cafwyd dargyfeiriad mewn rhai trefniadau gweinyddol rhwng y GIG yn Lloegr ac yng Nghymru. Er enghraifft, mae ymddiriedolaethau gofal cynradd yn bodoli yn Lloegr ond nid yng Nghymru ac mae awdurdodau iechyd yn cael eu diddymu yng Nghymru ond nid yn Lloegr. O ganlyniad i hyn, mae angen i weinyddiaeth GIG wneud mwy nag y gwnaeth yn y gorffennol i sicrhau fod y cyfarwyddyd ar reoli ystâd y mae'n ei roi i ymddiriedolaethau ac awdurdodau iechyd Cymru yn briodol ar gyfer trefniadau gweinyddol yng Nghymru. Yn gyffredinol, mae cyfarwyddyd ar reoleiddio ystâd sydd o natur dechnegol, gweithredol neu broffesiynol, gan gynnwys arfer rheoli da, yn dueddol o fod yn gyffredinol berthnasol, tra bo cyfarwyddyd polisi yn dueddol o fod yn benodol i Gymru.

2.11 Cynhaliodd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru adolygiad o'r cyfarwyddyd ar strategaeth ystâd a roddwyd yng Nghymru. Fe wnaethon ni archwilio ymwybyddiaeth rheolwyr ystâd a'r defnydd a wneir o'r cyfarwyddyd yma ar lefel ymddiriedolaeth ac awdurdod iechyd yn ystod ein hymweliadau â'r cyrff yma. Gwelsom:

- Fod dogfen batrwm strategaeth ystâd wedi ei rhoi i ymddiriedolaethau GIG yn Lloegr gan Weithgor y GIG ym mis Ionawr 1996, ond na ledaenwyd y ddogfen yn ffurfiol yng Nghymru tan fis Ebrill 1997, bymtheg mis yn ddiweddarach;

**Ffigur 7**

**Cyfarwyddyd ar reoli ystâd allweddol ar gyfer cyrff GIG Cymru sydd yn berchen ar eiddo**

**Cod Ystâd:**

Cyfrol 1 (1993) - Cyfarwyddyd ar draws y GIG yn sôn am reoli asedau strategol, cynllunio buddsoddiad ystâd, dadansoddi perfformiad ystâd a chynaladwyedd asedau.

Cyfrol 2 (1994) - Cyfarwyddyd ar draws y GIG yn sôn am reoli eiddo ac yn cynnwys gofynion gorfodol ac egwyddorion cyffredinol y dylid eu dilyn, prosesau allweddol er mwyn sicrhau atebolrwydd a gwerth am arian, asesiad risg a'r defnydd o wasanaethau sector preifat.

Nodyn: Cyhoeddwyd a mabwysiadwyd y Cod ystâd yn gyntaf gan gyrff GIG a oedd yn berchen ar eiddo yn 1989, pan gymerodd le Llawlyfr y GIG ar Reoli Tir (1977). Diweddarwyd Cyfrol 2 o'r Cod Ystâd ym mis Gorffennaf 2000 ar gyfer Lloegr, ond nid yw'n ffurfiol gymwys i adrannau iechyd yng Nghymru, Yr Alban na Gogledd Iwerddon. Mae'r Cod Ystâd yn cael ei ddiweddaru a'i wella'n gynhwysfawr ar gyfer ail-lawnsiad gan Weithgor y GIG yn Lloegr, yn hwyrach yn ystod 2001.

**Llawlyfr Buddsoddi Cyfalaf:**

Mae'r cyfarwyddyd GIG eang yma a gyhoeddwyd yn 1994, yn rhoi cyfarwyddyd ar drefniadaeth project, ariannu preifat, pecynnau busnes, rheoli projectau adeiladwaith, comisiynu cyfleusterau gofal iechyd, rheoli gwybodaeth a thechnoleg a gwerthuso ôl-broject.

**Cyfarwyddyd technegol arall:**

Mae Cyfarwyddiaeth y GIG yn rhoi ystod eang o gyfarwyddyd i gyrff GIG Cymru sydd berchen ar eiddo ar faterion gweithredol a thechnegol sydd yn ymwneud â rheoli ystâd, gan gynnwys:

- Nodiadau Technegol Ysbyty - cyfarwyddyd ar ddyluniad, gosod a rhedeg cydrannau adeiladu arbenigol a systemau gwasanaeth adeiladu;
- Nodiadau Adeiladu Ysbyty - cyngor ar gyfer timoedd project sydd yn cael adeiladau newydd ac yn addasu neu'n ehangu adeiladau sydd eisoes yn bodoli;
- Concod - polisi ar weithdrefniadau cytundeb a ffyrdd o ddewis cytundebau a chomisiynu ymgynghorwyr;
- Encod - cynllunio a gweithredu effeithlonrwydd ynni mewn adeiladau;
- Côd Tân - polisi, cyfarwyddyd technegol ac agweddau arbenigol yn ymwneud â rhagofalon tân.

*Ffynhonnell: Cynulliad Cenedlaethol Cymru*

- Rhoddwyd dogfen ddilynol ar ddatblygu strategaeth ystâd i ymddiriedolaethau GIG yn Lloegr gan Weithgor y GIG ym mis Rhagfyr 1999, ond ni ledaenwyd y ddogfen yn ffurfiol i ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru tan fis Mawrth 2001, heb ei addasu a phymtheg mis yn ddiweddarach, wedi llawer o drafod ynglŷn â ddylid addasu'r cyhoeddiad er mwyn ei wneud yn benodol ar gyfer Gymru;
- Ar ein hymweliadau i ymddiriedolaethau, amrywiodd staff rheoli ystâd yn eu hymwybyddiaeth o ba gyfarwyddyd ar strategaethau ystâd oedd yn gymwys ac awdurdodol ar hyn o bryd yng Nghymru ac yn eu defnydd o'r cyfarwyddyd oedd ar gael i ddatblygu eu strategaethau ystâd;
- Ni roddwyd y cyfarwyddyd ar strategaeth ystâd i awdurdodau iechyd yng Nghymru er mwyn iddyn nhw allu gweithredu rhannau ohono, ac fe sylwon ninnau yn ystod ein hymweliadau i awdurdodau iechyd fod staff a chanddyn nhw swyddogaethau rheoli ystâd naill ai ddim yn ymwybodol o'r cyfarwyddyd neu'n ei ystyried yn amherthnasol i gyfrifoldebau perchnogaeth eiddo yr awdurdod.

## Gweithrediadau a wnaed gan ymddiriedolaethau GIG ac awdurdodau iechyd yng Nghymru er mwyn datblygu strategaethau ystâd lleol.

2.12 Cynhaliodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru arolygiad o'r cynnydd a wnaed gan ymddiriedolaethau ac awdurdodau iechyd wrth iddyn nhw ddatblygu strategaethau ystâd ar gyfer eu hardaloedd lleol. Fe wnaethom ni hyn drwy gyfrwng ein harolwg holiadur o holl ymddiriedolaethau GIG ac awdurdodau iechyd Cymru, drwy ein hymweliadau â chyrff dethol, a thrwy broses o arolygu'r cynnydd a wnaed gyda datblygiad strategaethau ystâd hyd at fis Medi 2001 **(Ffigur 8)**. Gwelsom:

**Ffigur 8**

**Cynnydd gan ymddiriedolaethau ac awdurdodau iechyd gyda pharatoi strategaethau ystâd: statws ym Medi 2001**

| | Statws Strategaeth | | |
|---|---|---|---|
| | Yn datblygu | Olaf | Y dyddiad y cynhyrchwyd y strategaeth |
| Awdurdodau iechyd | | | |
| Bro Tâf | ✔ | | |
| Dyfed Powys | | | |
| Gwent | | | |
| Iechyd Morgannwg | ✔ | | |
| Gogledd | ✔ | | |
| Ymddiriedolaethau | | | |
| Bro Morgannwg | ✔ | ✔ | Mehefin 2000 |
| Caerdydd a'r Fro | ✔ | | |
| Sir Gaerfyrddin | ✔ | | |
| Ceredigion a Chanolbarth Cymru | ✔ | | |
| Siroedd Conwy a Dinbych | ✔ | ✔ | Mehefin 2000 |
| Gofal Iechyd Gwent | ✔ | ✔ | 2001 |
| Gogledd Ddwyrain Cymru | ✔ | | |
| Gogledd Morgannwg | ✔ | ✔ | Rhagfyr 1999 |
| Gogledd Orllewin Cymru | ✔ | | |
| Sir Benfro a Derwen | | | |
| Pontypridd a'r Rhondda | ✔ | | |
| Gofal Iechyd Powys | | | |
| Abertawe | ✔ | | |
| Felindre | | | |
| Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | ✔ | ✔ | Hydref 2000 |

*Tarddiad: Holiadur y Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru*

- fod gan ymddiriedolaethau unigol gynlluniau amrywiol ystâd-berthynol yr oedden nhw wedi eu hetifeddu o'r dyddiau cyn ad-gyflunio a'u bod nhw ar wahanol lefelau o gyfuno, uwchraddio ac addasu'r rhain er mwyn datblygu strategaethau ystâd cydlynol ar gyfer sefyllfaoedd ôl-adgyflunio yn unol â gofynion y Cynulliad;

- fod Ystadau Iechyd Cymru wedi comisiynu cyfres o weithdai hyfforddiant yn ystod mis Mai a Mehefin 2001 ar gyfer rheolwyr ystâd perthnasol er mwyn helpu ymddiriedolaethau i ddatblygu eu strategaethau ystâd;

- mai'r dyddiad targed yng nghynllun y GIG ar gyfer pob ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru i gael strategaeth ystâd erbyn yw Rhagfyr 2001, ac erbyn Medi 2001 fe gynhyrchwyd strategaethau ystâd gan bump allan o bymtheg ymddiriedolaeth o fewn y tair blynedd diwethaf (Bro Morgannwg, Conwy a Sir Ddinbych, Gofal Iechyd Gwent, Gogledd Morgannwg, a'r Gwasanaeth Ambiwlans Cymru) tra oedd y gweddill ar wahanol lefelau o agosatrwydd tuag at ddatblygu'r gwaith;

- Nad oedd gofyn i awdurdodau iechyd yng Nghymru gwrdd â dyddiad targed penodol i gynhyrchu strategaethau ystâd, ac ym mis Medi 2001 adroddodd dau allan o'r pum awdurdod iechyd (Iechyd Morgannwg a Gogledd Cymru) wrthyn ni eu bod nhw'n datblygu strategaethau ystâd priodol i'w trefniadau dal eiddo, tra bod y trydydd (Bro Tâf) wedi cynnal adolygiad ystâd lefel uchel yn hwyr yn y flwyddyn 2000.

2.13 Yn ystod ein hymweliadau â'r ymddiriedolaethau fe ddywedwyd wrthym fod y pwysau o adgyflunio a'r canolbwyntio ar wellhad ariannol yn y blynyddoedd diweddar wedi bod yn ffactorau mawr a rwystrodd gynnydd mewn datblygiad materion strategaethau ystâd. Fe ddysgon ni o'n hymweliadau ag awdurdodau iechyd mai bach iawn oedd y nifer o awdurdodau a welai'r angen dros gael strategaethau ystâd eu hunain, a dyfynnwyd gwerth gymharol isel eu daliadau eiddo yn gyfiawnhad i'r safbwynt hyn.

2.14 Ceisiodd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru i asesu ansawdd y strategaethau ystâd a gynhyrchwyd gan ymddiriedolaethau GIG Cymru. Fe adolygon ni sampl o'r strategaethau oedd ar gael, mewn ffurf drafft a therfynol, yn erbyn ystod o feini prawf arfer da, a benodir yng nghyfarwyddyd y GIG yn ganolog, a'r gofynion gorfodol a amlinellir yn nogfen bolisi'r Cynulliad ar reoli ystâd. Gwelsom:

- fod angen i gysylltiadau rhwng datblygiadau ystâd a strategaethau gwasanaeth gofal iechyd gael eu lleisio'n well yn y strategaethau ystâd;

- fod angen arddangos eu gallu i ddatblygu ystâd gynlluniedig fforddadwy, i ymdrin â beichiau gwaith cynnal a chadw, ac i foderneiddio'r ystâd, yn fwy llawn, gan dalu sylw arbennig at oblygiadau cyllid estynedig; a

- bod angen datblygu targedau perfformiad ystâd, dangosyddion a mesurau cymharol ymhellach yn y strategaethau ystâd, yn enwedig drwy ddefnydd meincnodi.

### Pwyntiau allweddol ar ddatblygiad a gweithredu strategaethau ystâd

- Mae Cyfarwyddiaeth GIG y Cynulliad yn cydnabod yr angen i gyrff GIG sydd yn dal eiddo i gael strategaethau ystâd cadarn ac mae'n cymryd camau i ddatblygu hyn drwy ei pholisi rheoli ystâd ar gyfer GIG Cymru, ei chynllun gwaith strategaeth ystâd, cyfarwyddyd ystâd a hyfforddiant perthynol.

- Does dim strategaeth ystadau trosfwaol ar gyfer GIG Cymru yn gyfan, sydd yn amlinellu'r nodau, amcanion, cyllidau a thargedau amrywiol traws Cymru sydd yn perthyn i reolaeth yr ystâd, er bod y gwaith nawr yn mynd yn ei flaen a bod cynllun datblygu ystâd genedlaethol yn cael ei ddatblygu.

- Mae lle i wella yn amseriad cyfarwyddyd y Cynulliad ar strategaeth ystâd a materion perthynol a roddir i gyrff GIG Cymru sydd yn dal eiddo.

- Mae'r gwaith a wnaed gan ymddiriedolaethau GIG ac awdurdodau iechyd yng Nghymru i ddatblygu strategaethau ystâd wedi bod yn anghyson ac araf. Ar ddiwedd mis Medi 2001, roedd pump allan o'r pymtheg ymddiriedolaeth wedi cynhyrchu strategaethau ystâd tra roedd eraill yn y broses o'u datblygu nhw er mwyn cwrdd â tharged Rhagfyr 2001 o'u cael yn barod. Adroddodd dau allan o'r pum awdurdod iechyd eu bod nhw'n datblygu strategaethau ystâd.

- Mae lle i wella yn ansawdd y strategaethau ystâd: roedd gan y strategaethau oedd wedi ymddangos ac a gafodd eu hadolygu gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru ffaeleddau arwyddocaol.

Rydym yn argymell:

- fod Cyfarwyddiaeth GIG y Cynulliad yn hwyluso cynhyrchiad dogfen strategaeth lefel-uchel ar gyfer ystâd GIG Cymru yn gyffredinol. Dylai'r ddogfen strategaeth ystâd trosfwaol yma gynnwys targedau strategol, blaenoriaethau corfforol, ac estyniadau gwariant cyllid, a safonau perfformiad ystâd allweddol a meincnodau; a

- dylai Cyfarwyddiaeth y GIG asesu perthnasedd y cyfarwyddyd arfer da generig ar reoli ystâd sydd ar gael a chyhoeddi cyngor clir a diffiniol ynglŷn â'i chymhwysedd yng Nghymru yng nghyd-destun trefniadau gweinyddol Cymreig.

## Rheoleiddio, trefniadaeth a staffio ystâd

2.15 Mae cyfarwyddyd y Cynulliad a'r GIG yn ganolog, yn pwysleisio'r angen i gyrff sydd yn dal eiddo i nodi atebolrwydd a chyfrifoldebau rheoli ystâd yn glir o fewn eu trefniadaethau ac i sicrhau bod y staff sydd yn rheoli'r ystâd yn gymwys o safbwynt cymhwysterau i weithredu eu cyfrifoldebau. Mae newid strwythurol mawr wedi digwydd yn GIG Cymru yn ystod y blynyddoedd diweddar ac mae mwy o ailstrwythuro wedi'i gynnig ar gyfer y dyfodol.

## Rheolaeth ystâd GIG Cymru a swyddogaethau datblygu o fewn y Cynulliad

2.16 Fe adolygwyd sut roedd swyddogaethau rheoli'r ystâd yn gweithio o fewn y Cynulliad a gwelsom fod:

- y cyfrifoldeb canolog eglur am reoli a datblygu ystâd GIG Cymru wedi parhau i fod yn gymharol gadarn dros y pum mlynedd diwethaf, wedi'i leoli mewn cangen reoli ystâd ymroddedig (yr enw ar hyn o bryd yw cangen Cyfalaf ac Ystadau'r GIG) wedi'i staffio gan bobl â phrofiad o reoli ystâd a rheoli rhaglen gyfalaf;
- fod proffil corfforaethol canolog rheoli ystâd y GIG o fewn Cyfarwyddiaeth y GIG, yn isel o'i gymharu â rheolaeth ganolog technoleg gwybodaeth y GIG ac adnoddau dynol y GIG, sydd ill dau â statws adrannol o fewn Cyfarwyddiaeth y GIG a llawer mwy o adnoddau staff; na chyfalaf y GIG a changen yr ystadau (gyda chyfanswm staff o saith o bobl).
- mae gan gangen Ystadau a Chyfalaf y GIG fynediad at gyngor mewnol perthnasol, gwybodaeth a chefnogaeth o fannau eraill yn y Gyfarwyddiaeth a'r Cynulliad. Mae'n ddibynnol ar Ystadau Iechyd Cymru ac Adran Ystadau'r Cynulliad am gyngor a dadansoddiad proffesiynol, technegol a rheoli ystâd gweithredol i gefnogi ei swyddogaeth fel cleient hyddysg ar faterion eiddo rheoli o fewn Cyfarwyddiaeth y GIG.

## Swyddogaeth a chyfrifoldebau Ystadau Iechyd Cymru

2.17 Ystadau Iechyd Cymru sy'n gyfrifol am roi ystod o wasanaethau proffesiynol creiddiol a chefnogaeth dechnegol i GIG Cymru a'r Cynulliad yn ymwneud ag Ystâd GIG Cymru, gan gynnwys rheoli ystâd, materion adeiladu a pheirianyddol. Mae'n cyflawni'i wasanaethau o dan un cytundeb gyda'r Cynulliad ac mae'n gyfrifol i Gyfarwyddiaeth GIG y Cynulliad am ei berfformiad o dan y cytundeb. Mae cytundeb gwasanaeth cyfredol rhwng Ystadau Iechyd Cymru a'r Cynulliad ar gyfer y cyfnod o dair blynedd sy'n diweddu ar 31 Mawrth 2004. Mae Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Morgannwg yn gweinyddu Ystadau Iechyd Cymru o dan gytundeb rheoli arall rhwng yr ymddiriedolaeth a'r Cynulliad. Ariennir Ystadau Iechyd Cymru gan y Cynulliad a dalodd ryw £1.8 miliwn am y gwasanaethau yn 2000-01 a £90,000 pellach ynglŷn ag ymgynghoriadau allanol a gwasanaethau cyfreithiol a reolir gan Ystadau Iechyd Cymru ar ran y Cynulliad. Mae gan Ystadau Iechyd Cymru tua phedwar deg o staff, ac mae tua thri deg o'r rhain yn bobl ystâd broffesiynol, gan gynnwys penseiri, peirianwyr siartredig, tirarolygwyr siartredig, ac arbenigwyr eraill.

2.18 Fe adolygwyd swyddogaeth a chyfrifoldebau Ystadau Iechyd Cymru er mwyn gweld faint o le fyddai i wella'i gyflwyniad o wasanaethau i Gyfarwyddiaeth y GIG ac i GIG Cymru. Wrth wneud hyn fe drafodwyd gweithgareddau Ystadau Iechyd Cymru gyda swyddogion o fewn Cyfarwyddiaeth y GIG, gyda rheolwyr ystadau o Ymddiriedolaethau'r GIG (yn ystod ein hymweliadau ac yn nhrafodaethau ein grŵp canolbwyntio) a chyda Chyfarwyddwr Ystadau Iechyd Cymru. Dyma ein prif ddarganfyddiadau a sylwadau:

- er pan sefydlwyd Ystadau Iechyd Cymru yn 1996, mae wedi cynnig ystod o wasanaethau ymgynghorol ac arbenigol gan gynnwys rheoli tir ac eiddo, sicrhau adeiladau a gwasanaethau adeiladu a chyfarpar peirianyddol (heb gynnwys gwasanaethau dylunio neu reoli projectau y bydd cyrff sy'n dal eiddo GIG Cymru'n eu contractio, os bydd angen, o gwmnïau yn y sector preifat.) Ond nid yw'n fwriad, a does ganddo mo'r gallu, i fod yn unig ddarparwr holl wasanaethau proffesiynol a thechnegol rheoli ystadau ar gyfer GIG Cymru;
- yn y blynyddoedd diweddar, roedd Cyfarwyddiaeth y GIG wedi cynyddu cyfraniad Ystadau Iechyd Cymru tuag at gefnogi cychwyniadau a ysgogwyd gan y Cynulliad, er enghraifft, yng ngwaith strategaeth yr ystâd, gwaredu eiddo, a thimau adolygu rheoli perfformiad;
- roedd Ystadau Iechyd Cymru hefyd yn dymuno symud yn bellach i gyfeiriad cynnig gwasanaethau rheoli proffesiynol a thechnegol strategol, ar gyfer GIG Cymru a Chyfarwyddiaeth y GIG, yn hytrach na gwasanaethau gweithredol o ddydd-i-ddydd i ymddiriedolaethau'r GIG;

- roedd yn agos i 80 y cant, mewn gwerth, o'r gwasanaethau proffesiynol a thechnegol a roddwyd gan Ystadau Iechyd Cymru yn 2000-01 ar gyfer darparu gwasanaethau cefnogi dros Gymru gyfan ac i'r Cynulliad ac ychydig dros 20 y cant oedd ar gyfer cynnig gwasanaethau cefnogi penodol i ymddiriedolaethau'r GIG, awdurdodau iechyd a grwpiau iechyd lleol yng Nghymru;
- er eu bod yn ddigost i ymddiriedolaethau ac awdurdodau GIG Cymru, yn gyffredinol roedd awydd corff unigol oedd yn dal eiddo i ddefnyddio gwasanaethau Ystadau Iechyd Cymru yn dibynnu'n fawr iawn ar brofiadau blaenorol y cyrff unigol ac ar ffafriaeth bersonol tuag at Ystadau Iechyd Cymru fel darparwr (gweler **Ffigur 9**);
- roedd rheolwyr ystâd yn ymddiriedolaethau'r GIG at ei gilydd yn ffafrio ac yn gwerthfawrogi'r gwasanaethau gweithredol a thechnegol a roddid gan Ystadau Iechyd Cymru, ond yn dweud y bydden nhw'n eu defnyddio'n fwy:
  - petai'n gallu ymateb yn gyflymach i ofynion yr ymddiriedolaethau, yn enwedig ar gyfer gwaith brys ac ad hoc;
  - pe na bai'n gweithio i ddau feistr, h.y. Cyfarwyddiaeth GIG y Cynulliad a'r cyrff sy'n dal eiddo eu hunain, gyda'r risg o ganlyniad o wrthdaro o ran diddordebau.

## Trefniadau rheoli yr Ystadau a staffio yn ymddiriedolaethau ac awdurdodau iechyd Cymru

2.19 Mae ymddiriedolaethau'r GIG yn berchen neu'n dal yn agos at 95 y cant o ystâd GIG Cymru. Mae awdurdodau iechyd yng Nghymru'n perchenogi neu'n dal llawer llai o eiddo ond mae ganddyn nhw swyddogaethau a chyfrifoldebau strategol pwysig o ran rheoli ystadau. Ceisiodd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru sefydlu i ba raddau roedd swyddogaethau trefnu a staffio rheolaeth ystadau mewn awdurdodau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru yn eu galluogi i gyflawni eu prif gyfrifoldebau wrth reoli ystâd.

2.20 Ceisiodd ein holiadur arolwg at holl ymddiriedolaethau ac awdurdodau iechyd GIG Cymru gael gwybodaeth am drefniadaeth a staffio'u swyddogaethau rheoli ystâd. Hefyd fe ymwelwyd â saith o'r 15 ymddiriedolaeth a phob awdurdod iechyd i gyfweld staff ag amryw swyddogaethau o ran rheoli ystâd yn y cyrff hyn. Adolygwyd i ba raddau yr oedd pob ymddiriedolaeth ac awdurdod iechyd wedi dynodi rhywun proffesiynol â chymwysterau priodol i reoli'u hystâd, gyda mynediad at y Bwrdd, a'r graddau

**Ffigur 9**

**Ffactorau'n dylanwadu ar ddefnyddio Ystadau Iechyd Cymru gan ymddiriedolaethau'r GIG**

Fe welsom fod awydd ymddiriedolaethau GIG Cymru i ddefnyddio gwasanaethau Ystadau Iechyd Cymru yn cael ei ddylanwadu gan ffactorau fel:

- y graddau yr oedd rheolwyr ystadau unigol a staff ymddiriedolaethau'r GIG yn ymwybodol o'r gwasanaethau oedd ar gael gan Ystadau Iechyd Cymru, oedd yn amrywio'n sylweddol;
- ystod a natur y gwasanaethau oedd ar gael gan Ystadau Iechyd Cymru, mewn cystadleuaeth â gwasanaethau proffesiynol oedd ar gael naill ai o Adran Ystadau'r Cynulliad, Ystadau'r GIG yn Lloegr, oddi wrth ymddiriedolaethau eraill neu o'r sector preifat;
- pa mor gyflym y gallai Ystadau Iechyd Cymru ymateb i ofynion ymddiriedolaethau unigol, boed ar frys neu ar lai o frys, gan eu bod yn tueddu i ddod mewn pyliau o alw mawr ac o alw llai , yn gallu digwydd ar rybudd byr gydag angen o bosibl, i'w trin yn gyflym er mwyn boddhau byrddau'r ymddiriedolaeth neu arolygwyr iechyd a diogelwch;
- yr amser a gymerai Ystadau Iechyd Cymru i drefnu a gorffen tasgau penodol, o gofio'i adnoddau a'i lwyth gwaith;
- Swyddogaeth ddeuol Ystadau Iechyd Cymru mewn cyswllt ag ymddiriedolaethau'r GIG, gan weithredu fel plismon (e.e. gyda gweithgareddau archwilio ac arolygu ymddiriedolaethau GIG Cymru ac adrodd perfformiadau ystâd i Gyfarwyddiaeth y GIG) ac fel cynghorwr proffesiynol (e.e. gyda chefnogaeth weithredol a thechnegol i ymddiriedolaethau'r GIG), oedd yn drysu'r ymddiriedolaethau ynglyn â swyddogaeth bennaf Ystadau Iechyd Cymru ac yn achosi ymddiriedolaethau i bryderu ynglŷn â gwrthdaro posibl o ran diddordeb a gorarolygu;
- Yng Ngogledd Cymru, roedd pellenigrwydd tybiedig Ystadau Iechyd Cymru (a leolir yng Nghaerdydd) yn cael ei wrthgyferbynnu ag agosatrwydd tybiedig Ystadau GIG Lloegr (a leolir yn Elfed), a chontractwyr ystadau proffesiynol eraill ac ymddiriedolaethau'r GIG yng ngogledd--orllewin a Chanol gogledd Lloegr.

*Ffynhonnell: Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.*

yr oedd cyfrifoldebau ac atebolrwydd ynglŷn â rheoli ystâd wedi'u diffinio'n eglur o fewn y cyrff hyn. Fe welsom y canlynol:

**Ar gyfer ymddiriedolaethau'r GIG**

- Mae ymddiriedolaethau GIG Cymru wedi datblygu dulliau a strwythurau tra gwahanol ar gyfer trefnu a staffio'u swyddogaethau ar gyfer rheoli eu hystadau er mwyn cwrdd â'u gwahanol amgylchiadau o ran dal eiddo, yn amrywio fel hyn:
    - Ymdddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro, gyda bron pedwar deg o staff, o dan dri cyfarwyddwr gwahanol ( i gyd yn aelodau llawn o'r bwrdd), yn ymwneud i raddau amrywiol â materion rheoli ystâd, gan gynnwys swyddfa ddylunio,
    - Ymddiriedolaeth GIG Sir Benfro a Derwen, gyda thua 25 o staff yn ymwneud yn uniongyrchol â rheoli'r ystâd o dan y Cyfarwyddwr Cyllida lle ar adeg ein harolwg, roedd yr ymddiriedolaeth yn trafod y posibilrwydd o gael trefniadau partneriaeth gydag ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin drws nesaf,
    - Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Powys, oedd wedi contractio'r rhan fwyaf o'i swyddogaethau rheoli ystâd i'r awdurdod lleol, gan gadw uned reoli ystâd fach mewn bodolaeth, gyda rheolwr ystâd yn bennaeth, er mwyn rhoi'r gallu i ymdopi â chwsmer deallus a rheolaeth contractwr i'r ymddiriedolaeth;
- roedd cyfarwyddwr gweithredol, yn gyfrifol am gynllunio tymor hir yr ystâd, yn aelod o fwrdd 7 ymddiriedolaeth (Bro Morgannwg, Caerdydd a'r Fro, Sir Gaerfyrddin, Conwy a Sir Ddinbych, Gogledd Morgannwg, Sir Benfro a Derwen, a'r Felindre), ac roedd is-grŵp o'r bwrdd, yn cynnwys cyfarwyddwyr gweithredol ac anweithredol, yn gyfrifol am gynllunio ystâd dros y tymor hir gyda dwy ymddiriedolaeth (Ceredigion a Chanol Cymru a Gogledd-ddwyrain Cymru);
- roedd cyfarwyddwr neu reolwr ystâd oedd yn gyfrifol am gynllunio'r ystâd dros y tymor hir yn adrodd yn uniongyrchol i brif weithredwr yr ymddiriedolaeth mewn 5 ymddiriedolaeth (Gofal Iechyd Gwent, Gogledd Orllewin Cymru, Pontypridd a Chwm Rhondda, Abertawe a Gwasanaethau Ambiwlans Cymru), ac roedd rheolwr ystâd â chyfrifoldeb cynllunio dros y tymor hir yn adrodd i aelod arall o'r bwrdd mewn un Ymddiriedolaeth (Gofal Iechyd Powys);
- roedd staffio swyddogaethau ystâd ym mhob ymddiriedolaeth GIG Cymru a welsom wedi ei leihau yn ystod yr 1990au wrth i'r ymddiriedolaethau geisio gwneud arbedion ariannol fel rhan o'r ymgyrch i sicrhau eu bod yn talu ffordd a hyd yn oed yn cael adferiad ariannol, mewn rhai enghreifftiau. Arweiniodd hyn at leihad yn nifer y staff proffesiynol a thechnegol a gyflogid yn yr ymddiriedolaethau;
- roedd yr amser a'r adnoddau a ddyroddid i barhau datblygu proffesiynol a hyfforddiant ar gyfer staff oedd yn ymwneud â gweithgareddau rheoli ystâd yn yr ymddiriedolaethau a welsom yn amrywio rhwng ymddiriedolaethau. Mynegwyd pryderon am broffil oedran cynyddol hyn staff rheoli ystâd, colledion ymhlith staff ac arbenigedd, a'r anawsterau o benodi personél newydd ac iau oedd â chymwysterau priodol.

**ar gyfer awdurdodau iechyd**

- roedd awdurdodau iechyd unigol wedi datblygu trefniadau gwahanol ac wedi neilltuo gwahanol lefelau o adnoddau i staffio swyddogaethau rheoli ystâd o fewn eu sefydliadau i gwrdd â'u gwahanol gyfrifoldebau o ran rheoli ystâd, er enghraifft,
    - ym Mro Tâf, roedd gan yr awdurdod reolwr adnoddau amser llawn, yn gyfrifol am ystâd yr awdurdod iechyd ac yn adrodd yn uniongyrchol i'r prif weithredwr,
    - yng Ngogledd Cymru, roedd y prif weithredwr yn gyfrifol am gynllunio'r ystâd dros y tymor hir, roedd y cyfarwyddwr cyllid yn gyfrifol am gynllunio'r ystâd dros y tymor byr ac am weithredu cynlluniau'r ystâd, ac roedd rheolwr yr ystâd (yn gweithio un dydd yr wythnos) yn gyfrifol am reolaeth weithredol yr ystâd o ddydd i ddydd, yn Nyfed Powys, roedd rheolwr cefnogaeth y gweithredwr ( oedd hefyd yn ysgrifennydd i'r bwrdd) yn gyfrifol am yr ystâd, ac yn adrodd yn uniongyrchol i brif weithredwr yr awdurdod;
    - roedd awdurdodau iechyd wedi cael profiad o gwtogiadau ymhlith staff rheoli ystâd oddi ar 1995 o ganlyniad i'r ad-drefnu o fewn GIG Cymru ac edwiniad y gallu i reoli ystâd o fewn awdurdodau unigol. Ar hyn o bryd mae rhai awdurdodau heb unrhyw bersonél proffesiynol mewnol yn rheoli ystâd.

## Pwyntiau allweddol ynglŷn â threfniadaeth rheoli ystâd a staffio

- Mae gan reolaeth ystâd y GIG broffil corfforaethol cymharol isel o fewn Cyfarwyddiaeth GIG y Cynulliad er gwaethaf gwerth yr ystâd (dros £1 biliwn), y lefel o wariant blynyddol ar yr ystâd (dros £300 miliwn), natur dechnegol ac arbenigol asedau'r eiddo eu hunain.
- Sut bynnag, cyflawnir adolygiad o swyddogaeth reoli yr ystadau yn ganolog fel rhan o adolygiad ehanga Bwrdd Cyfarwyddwyr y GIG yn dilyn cyhoeddiad Gwella Iechyd yng Nghymru.
- Ystadau Iechyd Cymru yw cnewyllyn canolog arbenigedd proffesiynol rheoli ystâd y GIG yn y Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru. Oddi ar ei sefydlu yn 1996, mae'i wasanaethau wedi datblygu mewn ymateb i'r galw gan gleientau oddi wrth Gyfarwyddiaeth y GIG yn ogystal ag ymddiriedolaethau ac awdurdodau iechyd y GIG, yn hytrach nag fel rhan o gyfarwyddyd eglur gan Gyfarwyddiaeth y GIG ynglŷn â'i phrif flaenoriaethau.
- Mae'r gwasanaethau a gynigir gan Ystadau Iechyd Cymru yn ddi-gost i ymddiriedolaethau ac awdurdodau iechyd y GIG. Fodd bynnag, dyw'r cyrff hyn ddim yn defnyddio Ystadau Iechyd Cymru gymaint ag y gallen nhw ac yn prynu rhai o'r gwasanaethau y gallai Ystadau Iechyd Cymru eu rhoi am ddim, o'r sector preifat.
- Roedd y cyfrifoldeb a ddynodwyd ar gyfer cynllunio'r ystâd dros y tymor hir yn nwylo cyfarwyddwyr gweithredol ar lefel y bwrdd mewn naw o'r 15 ymddiriedolaeth. Yn y chwech ymddiriedolaeth arall, roedd y prif weithredwr neu aelod arall o'r bwrdd yn gyfrifol am yr ystâd, gyda chyfarwyddwr neu reolwr ystâd yn adrodd yn uniongyrchol iddo.
- Mae Ymddiriedolaethau'r GIG wedi datblygu dulliau a strwythurau tra gwahanol ar gyfer trefnu a staffio'u swyddogaethau rheoli ystâd. Cwtogwyd nifer y staff proffesiynol a thechnegol a gyflogwyd gan yr ymddiriedolaethau yn ystod y 1990 au wrth i'r ymddiriedolaethau geisio gwneud arbedion ariannol fel rhan o'r ymgyrch i sicrhau eu bod yn byw o fewn eu hincwm ac mewn rhai achosion, wella'u sefyllfa ariannol. Mae GIG Cymru'n cydnabod fod problemau'n bodoli ynglŷn â'r proffil oedran sy'n gynyddol hyn o'r staff rheoli ystâd, colledion staff ac arbenigedd, a'r anawsterau o benodi personél newydd ac iau sy'n briodol gymwys.

Rydym yn argymell:

- fod yr adolygiad hwn yn cael ei gynnal ar y cyd ag adolygiad o swyddogaeth, cyfrifoldebau a statws Ystadau Iechyd Cymru, cyn i'r cytundeb presennol ddod i ben ym mis Mawrth 2004, er mwyn penderfynu nodau a blaenoriaethau Ystadau Iechyd Cymru;
- fod prif weithredwyr ymddiriedolaethau GIG Cymru yn sicrhau eu bod nhw'n cael defnyddio pobl ystâd broffesiynol â chanddynt gymhwysterau addas i gynghori ar faterion sy'n effeithio ar reoli a datblygu'r ystâd o dan eu rheolaeth;
- fod staff â chyfrifoldeb gweithredol o ddydd i ddydd i redeg a chynnal yr ystâd yn derbyn hyfforddiant proffesiynol a thechnegol priodol, a bod perfformiadau personél yr ystâd wrth gwrdd â'u cyfrifoldebau yn cael eu gwerthuso bob hyn a hyn.

# RHAN 3: Gwybodaeth am ystadau a'u perfformiad

3.1 Mae'r cyfarwyddyd a roddir gan y GIG yn ganolog yn pwysleisio ei bod yn bwysig fod cyrff a chanddynt ddaliadau eiddo yn edrych yn fanwl ar asedau'r ystâd ac asesu pa mor effeithiol yw'r defnydd ohoni, beth yw'r gost o'i rheoli ac o'i chynnal a'i chadw, a sut y gellid eu haddasu i gwrdd ag anghenion gwasanaethau yn y dyfodol. Mae'r canllawiau yn nodi fod yn rhaid cael rheolaeth ar eiddo ac asedau cysylltiol er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'r pwrpas ac yn cael eu defnyddio i'w gallu cynhyrchiol llawn.

3.2 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn ystyried pa mor llwyddiannus y mae ymddiriedolaethau ac awdurdodau iechyd yng Nghymru yn rheoli a monitro perfformiad yr ystâd yn eu daliadaeth. Mae'n edrych ar:

- y systemau gwybodaeth sydd gan GIG Cymru er mwyn asesu'r perfformiad ar reolaeth ystadau; a
- beth mae'r wybodaeth am reolaeth ystadau yn ei ddatgelu am berfformiad ystâd y GIG yng Nghymru.

## Trefniadau ar gyfer asesu perfformiad rheoli ystâd

3.3 Mae ymarfer da sefydledig yn pwysleisio mai prif elfennau system gadarn i reoli perfformiad yw gosod targedau perfformiad ynghyd â mesur perfformiad yn erbyn y targedau hynny a darparu adroddiad. Yng Nghymru, pan sefydlwyd yr ymddiriedolaethau GIG a throsglwyddo eiddo iddynt rhwng dechrau a chanol y nawdegau cynnar i bob pwrpas rhyddhawyd y Swyddfa Gymreig o'r broses fanwl o reoli ystadau. Hefyd, dilëwyd rhai o'r dulliau a ddefnyddid gan y Swyddfa Gymreig i fonitro ac adolygu'r perfformiad rheolaeth ar ystadau'r ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru, gan gynnwys ar yr un pryd leihad sylweddol yn y data ar reolaeth ystadau yr oedd yn ofynnol i'r cyrff GIG yng Nghymru a oedd yn dal eiddo ei drosglwyddo i'r Swyddfa Gymreig. Ar yr un pryd, yr oedd gan y gwahanol ymddiriedolaethau GIG ac awdurdodau iechyd yng Nghymru wahanol ddulliau a systemau ar gyfer casglu a chadw gwybodaeth am ystadau o fewn eu sefydliadau eu hunain.

## Targedau rheoli ar ystadau strategol

3.4 Ers iddo gymryd cyfrifoldeb am GIG Cymru, mae'r Cynulliad wedi cyhoeddi'r bwriad o weithredu mewn amryw ffyrdd ac wedi nodi beth y mae'n gobeithio ei gyflawni mewn perthynas â gwella ystâd GIG Cymru. Maent yn cynnwys:

- gwella rheolaeth o ystâd GIG Cymru erbyn Mawrth 2003;
- gwella ansawdd ac effeithiolrwydd y defnydd a wneir o'r ystâd;
- comisiynu gwaith yn y chwarter cyntaf o 2001 i ddynodi'r opsiynau ynglŷn â chydweithredu gan ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru er mwyn delio ag ôl-groniad gwaith cynnal a chadw;
- cynyddu'r dyraniadau o gyfalaf dewisol sydd ar gael i ymddiriedolaethau trwy o leiaf £10 miliwn erbyn 2005 er mwyn delio yn rhannol â'r ôl-groniadau sylweddol mewn gwaith cynnal a chadw; a
- mynd i'r afael â phroblemau brys yn ymwneud ag iechyd a diogelwch fel y flaenoriaeth gyntaf yn y rhaglen gyfalaf am 2001-02.

3.5 Yng nghyd-destun yr amcanion a bwriadau cyffredinol hyn, bu inni adolygu cynllun strategol y Cynulliad, Gwell Cymru, a chynllun y GIG, Gwella Iechyd yng Nghymru, am dargedau penodol yngl#n â pherfformiad ystâd GIG Cymru. Mae targedau perfformiad yr ystâd wedi'u gosod allan yn **Ffigur 10**. Nodwyd y canlynol:

**Ffigur 10**

**Targedau perfformiad sy'n berthnasol i ystâd GIG Cymru**

| Targed | Corff sy'n gosod y targed | Dyddiad ei gosod | Dyddiad cyflawni | Maes | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|---|
| 90% o'r ystâd i fod yn o leiaf cyflwr B o linell waelodol o 60% yn 1997/98 | Y Cynulliad Cenedlaethol | Ion 2000 | 2002/03 | Cyflwr | Yn parhau |
| 100% o ymddiriedolaethau i fod wedi cynnal arolygon o'r defnydd o le yn eu heiddo | Y Cynulliad Cenedlaethol | Ion 2001 | Rhag 2001 | Defnydd o ofod | Yn parhau |
| Lleihad o 20% mewn treuliant ynni crai gan GIG | Llywodraeth ganolog | 1990 | 2000 | Perfformiad ynni | Lleihad o 8.7% |
| Lleihad o 15% mewn treuliant ynni crai gan GIG | Llywodraeth ganolog | 2000 | 2010 | Perfformiad ynni | Yn parhau |



- mae cynllun strategol y Cynulliad yn rhestru naw o dargedau yn ymwneud â thargedau iechyd a lles. Un ohonynt (sy'n ymwneud â chyflwr) sy'n berthnasol i ystâd GIG Cymru;
- mae cynllun GIG y Cynulliad hefyd yn cynnwys un targed ar berfformiad ystâd (yn ymwneud â'r defnydd o le) ond mae'n gwneud ymrwymiad penodol i ddatblygu targedau perfformiad newydd ar gyfer buddsoddiad yng ngwaith cynnal a chadw ystadau;
- yn ogystal â'r targedau hyn mae'r llywodraeth ganolog yn gosod dau darged (yn ymwneud â pherfformiad ynni);
- mae Cyfarwyddiaeth GIG y Cynulliad yn bwriadu sefydlu ystod ehangach o dargedau, i gwmpasu'r meysydd allweddol o gydymffurfiad statudol, cyflwr, addasrwydd gweithrediadol, a'r defnydd o le ynghyd â pherfformiad amgylcheddol eiddo gweithrediadol hanfodol ar draws yr ystâd gyfan.

## Adroddiadau am berfformiad ystâd gan Ymddiriedolaethau GIG Cymru ac awdurdodau iechyd i Gyfarwyddiaeth GIG y Cynulliad

3.6 Yn ddiweddar mae'r Cynulliad wedi datblygu fframwaith rheoli perfformiad ar gyfer GIG Cymru, a'r brif ran ohoni yw'r set o ddangosyddion perfformiad cenedlaethol sy'n cael eu datblygu er mwyn cefnogi a chael eu cysylltu â rhaglenni gwella iechyd. Mae canllawiau'r GIG yn ganolog yn argymell ystod o ddangosyddion perfformiad ystadau i'w defnyddio gan ymddiriedolaethau GIG ar gyflwr ac effeithiolrwydd yr ystâd, gan gynnwys perfformiad cyllidol ystâd a chostau deiliadaeth, effeithlonrwydd defnydd o le, cynhyrchiant a threfniant asedau, ac ansawdd ystâd.

3.7 Rhoddwyd ystyriaeth i'r graddau y mae'r fframwaith rheoli perfformiad ar gyfer GIG Cymru yn cynnwys dangosyddion a mesuriadau perfformiad rheoli ystâd. Dyma a nodwyd:

- mae'r set o ddangosyddion perfformiad yn y fframwaith rheoli perfformiad cyfredol yn cynnwys saith dangosydd sy'n ymwneud â meysydd rheolaeth gyfundrefnol, ond dim un sy'n ddangosydd rheolaeth ystâd;
- yn unol â pholisi'r Cynulliad ar reolaeth ystadau ar gyfer GIG Cymru, mae'r Cynulliad, mewn partneriaeth â GIG Cymru, yn sefydlu fframwaith rheoli perfformiad ystadau yn benodol ar gyfer rheoli ystâd y GIG. Gweithredir hyn o Ebrill 2002. Bydd yn ofynnol i gyrff a chanddynt ddaliadaeth eiddo goladu,

dadansoddi a chadw gwybodaeth ar ffurf briodol fel y gellir asesu'n drylwyr eu perfformiad o reolaeth ystadau. Ategir y fframwaith gan adolygiad blynyddol o'r ystâd, monitro trylwyr a gosod targedau.

3.8 Ar hyn o bryd mae Cyfarwyddiaeth GIG y Cynulliad yn monitro yr ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru ar eu perfformiad mewn rheolaeth ystadau drwy system o gyflwyno adroddiad data a gyflwynir yn flynyddol i Ystadau Iechyd Cymru gan bob un o'r ymddiriedolaethau. Defnyddir adroddiadau data yr ystâd i gynhyrchu dau adroddiad ar gyfer y Gyfarwyddiaeth GIG, ac fe roddir copïau i brif weithredwyr ymddiriedolaethau'r GIG:

- adroddiad cyffredinol ar berfformiad ystadau, sy'n cynnwys cyflwr ystâd, amcan-gost yr ôl-groniad o waith cynnal a chadw, cydymffurfio â gofynion statudol a diogelwch, a pherfformiad ynni pob ysbyty neu safle iechyd sydd mewn defnydd gweithredol ar yr ystâd;
- adroddiad penodol ar berfformiad ynni sy'n rhoi cymariaethau flwyddyn wrth flwyddyn o draul ynni mewn ysbytai yng Nghymru ochr yn ochr â thargedau'r llywodraeth ganolog.

3.9 Mae Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru wedi adolygu'r system o gyflwyno adroddiadau data ac o roi adroddiadau perfformiad am y blynyddoedd o 1997-98 hyd 1999-2000 (y flwyddyn ddiwethaf y cafwyd adroddiad arni ym Mehefin 2001). Dyma a nodwyd:

- yr oedd yr adroddiadau yn cynnwys y cyflwr, diogelwch a gofynion statudol, a pherfformiad ynni yr ystâd. Fodd bynnag, nid oedd y system adrodd ar berfformiad ystâd yn cynnwys addasrwydd gweithrediadol na'r defnydd o le mewn eiddo, er bod addasrwydd i bwrpas yn fater o bwys lle bo eiddo yn y cwestiwn a bod y defnydd o le yn bwysig o ran gwella effeithiolrwydd adeiladau a dynodi arbedion ariannol;
- Nid yw Ystadau Iechyd Cymru yn gwirio'r wybodaeth a roddir gan yr ymddiriedolaethau yn yr adroddiadau data ac mae'n dibynnu ar yr ymddiriedolaethau i gyflwyno gwybodaeth gywir;
- Mae Ystadau Iechyd Cymru'n pryderu am gywirdeb a chysondeb adroddiadau'r ymddiriedolaethau ar gostau ôl-groniad eu gwaith cynnal a chadw, ac fe danlinellir hyn gan y ffigurau sylweddol wahanol a roddwyd am y costau hyn gan yr ymddiriedolaethau i Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn yr arolwg holiadurol ar reolaeth ystadau (gweler paragraffau 3.29-3.30);
- Mae Ystadau Iechyd Cymru'n annog ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru i gymharu eu hunain â dadansoddiadau o wybodaeth am ymddiriedolaethau GIG yn Lloegr, ar gael gan Ystadau GIG Lloegr, ond nid oes ganddynt hwy ddata cymharol yn ymwneud â'r Alban na Gogledd Iwerddon i'w gynnig i'r ymddiriedolaethau;
- cyhoeddwyd yr adroddiadau ar berfformiad ystadau ac ar berfformiad ynni am y flwyddyn ariannol 1999-2000 yn Ionawr 2001, naw mis ar ôl diwedd y flwyddyn y maent yn berthynol iddi, yn bennaf oherwydd fod yr ymddiriedolaethau yn hwyr yn gyrru'r adroddiadau i Ystadau Iechyd Cymru; ac
- o ganlyniad i'n hymweliadau ag ymddiriedolaethau unigol a thrafodaethau ein grwpiau ffocws, deallwyd nad oedd rheolwyr ystadau'n dymuno dychwelyd at amodau'r gorffennol o gyflwyno adroddiadau pan, yn eu barn hwy, yr oedd ystod eang o wybodaeth wedi'i gasglu oddi wrth ymddiriedolaethau ar gyfer monitro canolog a hwnnw heb fod o ddim budd gweladwy i'r ymddiriedolaethau.

## Casglu, dadansoddi, ac adrodd ar wybodaeth perfformiad ystadau o fewn ymddiriedolaethau GIG ac awdurdodau iechyd yng Nghymru

3.10 Mae polisi'r Cynulliad ar reolaeth ystadau ar gyfer GIG Cymru yn ei gwneud yn orfodol i gyrff a chanddynt ddaliadaeth eiddo i:

- ddynodi cyflwr, cydymffurfiad statudol, addasrwydd gweithrediadol, perfformiad amgylcheddol a'r defnydd o le mewn eiddo hanfodol ac eiddo diangen;
- ddefnyddio ffyrdd o asesu eu perfformiad eu hunain ar reolaeth ystadau drwy feincnodi a dangosyddion perfformiad; a
- sicrhau fod data ar reolaeth ystadau yn cael ei gadw mewn ffurf ddiogel, ddarllenadwy a hawdd ei diweddaru, ac y gellir cyflwyno data i'r Cynulliad fel y bo'r angen.

3.11 Mae canllawiau cyfredol y GIG ar reolaeth ystadau yn benodol yn cynghori ymddiriedolaethau GIG ac awdurdodau iechyd i gasglu gwybodaeth er mwyn dadansoddi perfformiad eu hystâd. Mae'r canllawiau yn cynghori fod cronfa ddata ystâd o leiaf yn cynnwys gofynion statudol a diogelwch tân, cyflwr, addasrwydd gweithrediadol, y defnydd o le a pherfformiad ynni:

3.12 Adolygodd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru y systemau sydd gan ymddiriedolaethau GIG ac awdurdodau iechyd ar gyfer casglu, dadansoddi, ac adrodd yn fewnol ar berfformiad ystadau hyd at lefel byrddau'r ymddiriedolaethau. Dyma a ganfuwyd:

- nid oedd byrddau rheoli na phrif weithredwyr yr ymddiriedolaethau yn gofyn am nac yn derbyn yn rheolaidd, adroddiadau cyfnodol a chynhwysfawr ar agweddau allweddol o reolaeth a pherfformiad asedau'r ystâd yr oeddent yn gyfrifol amdanynt. Fel arfer, yr oedd materion ystadol yn cael ystyriaeth pan wnaed ceisiadau o achosion busnes penodol am fuddsoddiad cyfalaf.
- er bod Ystadau Iechyd Cymru yn y gorffennol wedi argymell fod pob ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru yn cynnal dadansoddiadau perfformiad ar gyfres graidd o ddangosyddion perfformiad, nid oeddent yn orfodol, ac nid oedd defnydd eang ohonynt. Mae hyn yn llesteirio dadansoddiadau safonedig perfformiad rhwng ymddiriedolaethau;
- yr oedd adrannau rheoli ystadau mewn ymddiriedolaethau GIG yn casglu eu gwybodaeth ariannol eu hunain am yr ystâd i ddibenion rheolaeth ystadau a rheolaeth gyllidol yn hytrach na dibynnu ar systemau cyllidol craidd, yn bennaf am nad oedd y systemau hyn yn rhoi iddynt yr wybodaeth yr oeddent yn ei geisio;
- yr oedd data ariannol craidd yn ymwneud â'r ystâd yn cael ei gasglu a'i ddefnyddio'n wahanol gan y gwahanol ymddiriedolaethau, ac felly yn tanseilio cymariaethau ystyrlon ar berfformiad rhwng ymddiriedolaethau a'r berthnasedd weladwy a defnyddioldeb meincnodi;
- yr oedd 13 o'r 15 ymddiriedolaeth wedi ymgymryd â rhyw fath o feincnodi yn y pum mlynedd ddiwethaf, trwy hyn yr oedd y gwahanol ymddiriedolaethau yn cymharu sefyllfa a pherfformiad eu hystâd gydag ymddiriedolaethau eraill yng Nghymru ac yn ehangach, ond braidd yn anhrefnus oedd hyn dros Gymru gyfan. (gweler **Ffigur 11**);
- yr oedd y Gyfarwyddiaeth GIG yn hwyr yn symud ymlaen â datblygu canllawiau i annog a chynorthwyo ymddiriedolaethau i ymgymryd ag ymarferion meincnodi: er bod bwriad i'w orffen yn ystod 2000-01 nid oedd y canllawiau wedi'u datblygu na chael eu cyhoeddi ar ddiwedd Medi 2001;

## Ffigur 11

### Enghreifftiau o feincnodi a wnaed gan ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru

| Ymddiriedolaeth GIG | Consortiwm Cyfleusterau Gofal Iechyd | Grŵp Ymgynghorol Cenedlaethol ar Berfformiad | Gwybodaeth ar Gynnal a chadw Adeiladau | Ystadau Iechyd Cymru | Eraill[1] |
|---|---|---|---|---|---|
| Bro Morgannwg | | ✓ | | | ✓ |
| Caerdydd a'r Fro | ✓ | | | | ✓ |
| Sir Gaerfyrddin | | | | | |
| Ceredigion a Chanolbarth Cymru | ✓ | | | | |
| Siroedd Conwy a Dinbych | | ✓ | ✓ | | ✓ |
| Gofal Iechyd Gwent | ✓ | | ✓ | | |
| Gogledd Ddwyrain Cymru | | ✓ | | | ✓ |
| Gogledd Morgannwg | | | | ✓ | |
| Gogledd Orllewin Cymru | ✓ | | | | |
| Sir Benfro a Derwen | ✓ | | ✓ | | ✓ |
| Pontypridd a'r Rhondda | | | | ✓ | |
| Gofal Iechyd Powys | | | | | ✓ |
| Abertawe | | ✓ | | | |
| Felindre | | | | ✓ | |
| Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | | | | | |

Nodiadau: 1. Ystadau GIG; Canolfan Cyfeirnod Meincnodi GIG; Fforwm Ymchwil Cyfleusterau Rheolaeth Prifysgol Sheffield Hallam; trefniadau anffurfiol ag ymddiriedolaethau eraill.

*Ffynhonnell: Holiadur y Swyddfa Archwilio Genedlaethol*

- yr oedd modd electronig o gasglu data, ei ddadansoddi ac adrodd arnynt yn amrywio'n fawr ar draws cyrff GIG yng Nghymru. Er bod y rhan fwyaf o gyrff i ryw raddau yn defnyddio system Gweithfeydd Gwybodaeth Rheoli y GIG yr oedd ymddiriedolaethau wedi buddsoddi mewn meddalwedd technoleg gwybodaeth a meddalwedd gyfrifiadurol arall i ddibenion rheoli ystadau, ac yr oeddent mewn gwahanol stad o'u datblygu a'u gweithredu.
- fel prynwyr gwasanaethau gofal iechyd, nid oedd awdurdodau iechyd yn arolygu perfformiad ystadau'r ymddiriedolaethau GIG, fel darparwyr gwasanaethau yn eu hardaloedd mewn modd trefnus. Nid oedd yr un wedi gosod meini prawf perfformiad ar gyfer eu hymddiriedolaethau nac wedi sefydlu mecanwaith cadarn i ddylanwadu ar berfformiad rheoli ystadau ymddiriedolaethau;
- nid oedd awdurdodau iechyd yn asesu eu perfformiad eu hunain ar reoli ystadau yn effeithlon; ni ddywedodd yr un ohonynt fod ganddynt gynlluniau ysgrifenedig ar reoli ystadau, nid oedd gan yr un ohonynt mesurau i asesu eu perfformiad ar reoli ystadau, a dim ond dwy ymddiriedolaeth (Bro Tâf a Gogledd Cymru) oedd yn cynnal adolygiadau ffurfiol ar sut oedd eu hystadau'n perfformio.

## Cyflwr ystâd GIG Cymru Perfformiad ystâd y GIG yng Nghymru

3.13 Yn eu hymateb i argymhellion Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin yn 1988 ar reoli ystâd y GIG, dywedodd y Llywodraeth a'r adrannau iechyd mai'r allwedd i reolaeth effeithlon ystâd y GIG oedd casglu a chadw gwybodaeth gynhwysfawr am yr ystâd. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn gofyn beth mae'r wybodaeth am reoli a gasglwyd ac a gedwir gan ymddiriedolaethau GIG a'r awdurdodau iechyd yng Nghymru yn ei ddweud wrthym ynglŷn â pherfformiad ystâd GIG yng Nghymru. Mae'n canolbwyntio ar yr ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru am eu bod nhw'n berchen, yn dal neu'n rheoli fel arall bron holl eiddo gweithredol GIG Cymru.

### Prif bwyntiau ar systemau gwybodaeth sydd gan GIG Cymru ar gyfer asesu'r perfformiad ar reoli ystadau

- Mae'r Gyfarwyddiaeth GIG yn cynllunio datblygu ystod o dargedau strategol ar gyfer reoli ystâd GIG Cymru ond heb wneud hyn hyd yma. Mae diffyg targedau ar gyfer ystâd GIG Cymru ac eithrio'r rhai a nodir yng nghynllun strategol y Cynulliad a chynllun GIG yn wendid arwyddocaol yn y fframwaith gyfredol am reoli perfformiad GIG Cymru.
- Mae lle i wella ar y system bresennol o gyflwyno adroddiadau ar berfformiad ystadau i'r Cynulliad, yn enwedig parthed prydlondeb, ac ystod ac ansawdd y wybodaeth a gasglwyd. Mae'r Gyfarwyddiaeth GIG yn disgwyl y bydd y fframwaith newydd ar berfformiad rheoli ystadau ar gyfer ystâd GIG Cymru, yn cael ei gweithredu o Ebrill 2002, ac yn ateb llawer o'r materion a godwyd yn yr adran hon o'r adroddiad.
- Mae rhoi adroddiadau ynglŷn â phefformiad ar reoli ystadau o fewn ymddiriedolaethau GIG ac awdurdodau iechyd yng Nghymru yn amrywio'n fawr mewn ystod ac ansawdd. Mae cloriannu perfformiad i raddau helaeth yn fater o ddewis a thueddiad lleol.
- Nid yw rhoi adroddiadau ar berfformiad reoli ystadau i fyrddau'r ymddiriedolaethau yn fater rheolaidd ac nid oes iddo'r proffil priodol o fewn unrhyw un o'r cyrff a chanddynt eiddo yn eu daliadaeth.
- Er bod peth defnydd o feincnodi, ychydig o gysondeb sydd yn agwedd ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru tuag ato.

Yr ydym yn argymell bod:

- prif weithredwyr yr ymddiriedolaethau yn derbyn cyfrifoldeb personol dros sicrhau fod adroddiadau data yr ymddiriedolaeth yn gyflawn, yn gywir, wedi eu diweddaru ac yn cael eu cyflwyno'n brydlon, a'u bod yn llofnodi'r adroddiadau i'r perwyl hwnnw, er mwyn atgyfnerthu perchnogaeth ac atebolrwydd;
- adroddiadau ar berfformiad ystadau gan ymddiriedolaethau GIG Cymru i'r Gyfarwyddiaeth GIG yn cael eu helaethu i gynnwys y meysydd allweddol o addasrwydd gweithrediadol a'r defnydd o ofod;
- Ystadau Iechyd Cymru yn sefydlu'r cyswllt angenrheidiol â'r cyrff priodol yn yr Alban a Gogledd Iwerddon er mwyn rhoi i GIG Cymru ddata cymharol ac ychwanegu at beth sydd eisoes ar gael am ymddiriedolaethau GIG yn Lloegr;
- cyrff GIG Cymru a chanddynt ddaliadaeth eiddo yn ystyried arddel cyfres integredig o ddangosyddion perfformiad allweddol a gorfodol a mesurau o berfformiad rheoli ystâd; a
- yr allbynnau allweddol o wahanol systemau gwybodaeth ar reolaeth ystadau yn cael eu safoni cyn belled ag y bo'n bosib, o fewn yr ymddiriedolaethau GIG ac i drosglwyddo data o'r ymddiriedolaethau i Ystadau Iechyd Cymru ac i'r Gyfarwyddiaeth GIG, er mwyn sicrhau cysondeb.

3.14 Gan nad oedd gwybodaeth wedi'i chadw'n ganolog ar agweddau allweddol perfformiad ystâd GIG Cymru, cynhaliodd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru arolwg ar ffurf holiadur o holl ymddiriedolaethau GIG ac awdurdodau iechyd yng Nghymru. Defnyddiwyd y wybodaeth a gasglwyd gennym i ychwanegu at ac i'w chymharu â beth oedd ar gael o fewn Cyfarwyddiaeth y GIG a chan Ystadau Iechyd Cymru yn deillio o adroddiadau ar berfformiad cyfredol. Nodir canlyniadau'r arolwg hwn yn y paragraffau perthnasol isod. Ni fuom yn cynnal arolygon ar eiddo ond yn hytrach buom yn ceisio darganfod i ba raddau yr oedd y cyrff sy'n dal eiddo wedi gwneud y gwaith arolwg perthnasol eu hunain.

## Deiliadaeth eiddo a'i werthuso

3.15 Mae cyfarwyddyd y GIG ar reoli ystadau yn argymell fod ymddiriedolaethau ac awdurdodau iechyd yn crynhoi a chadw rhestrau eiddo ac yn rhoi pwyslais arbennig ar safleoedd mawr neu safleoedd a allai fod yn werthfawr. Yn ddelfrydol dylai'r rhestrau hyn gynnwys gwybodaeth ddigonol ar leoliad, deiliadaeth, gwerth a'r atebolrwydd sy'n gysylltiedig â phob eiddo mewn daliadaeth. Ceisiwyd canfod i ba raddau y mae'r ymddiriedolaethau GIG a'r awdurdodau iechyd yng Nghymru yn defnyddio eu rhestrau eiddo er mwyn:

- rheoli'n weithredol yr incwm a dderbyniwyd a'r gwariant a achoswyd mewn perthynas ag eiddo yn eu perchnogaeth ac yn eu daliadaeth; a
- bod yn ymwybodol o werth asedau'r ystadau er mwyn gwneud penderfyniadau ynglŷn â rheoli a datblygu yn yr ystadau.

### Deiliadaeth ystâd GIG Cymru

3.16 Mae Ystadau Iechyd Cymru yn cadw Portffolio Tir ac Eiddo, sef cofnod canolog o dir ac o eiddo pob corff yn GIG Cymru a chanddo ddaliadaeth eiddo. Dechreuwyd y portffolio yn 1984 ac mae'n cael ei ddiweddaru'n rheolaidd ar sail redegol. Mae'n cynnwys cynlluniau o leoliadau a statws cyfreithiol pob eiddo rhydd-ddaliadol a phrydlesol a ddelir gan ymddiriedolaethau ac awdurdodau iechyd. Mae gan pob ymddiriedolaeth ac awdurdod iechyd gopi o'r wybodaeth hon sy'n berthnasol i'w ystâd, ar ffurf electronig a chopi caled, i'w ddefnyddio i reoli eiddo lleol.

3.17 Ar ein hymweliadau ag ymddiriedolaethau GIG ac awdurdodau iechyd yng Nghymru adolygwyd y defnydd o gofnodion perchnogaeth a thenantiaeth oedd yn ymwneud â'u daliadaethau eiddo. Canfuwyd fod:

- 98 y cant o ystâd GIG Cymru yn ôl gwerth mewn rhydd-ddaliadaeth ac mai dim ond dau y cant sydd ar brydles;
- aml-berchnogaeth ac aml-feddiant ar rai safleoedd eiddo yn sylweddol mewn rhai achosion, gan arwain at yr angen am amryfal gytundebau rheoli i reoleiddio'r defnydd o'r eiddo a'r gwaith cynnal a chadw arno (e.e. Ysbyty Cyffredinol Gorllewin Cymru, tudalen 38);
- dim ond dau o'r saith ymddiriedolaeth y buom yn ymweld â nhw (Gofal Iechyd Gwent, Gogledd Orllewin Cymru) oedd yn rheoli yn weithredol eu cofnodion perchnogaeth, er enghraifft i fanteisio ar gyfleodd fel toriad prydlesol er mwyn rheoli rhesymoliad ystadau;
- fel perchenogion, yr oedd ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru yn y gorffennol wedi ceisio safoni cytundebau tenantiaeth gyda Meddygon Teulu a thenantiaid eraill er mwyn diogelu eu hawliau a'u cyfrifoldebau, gan gynnwys sicrhau incwm rhent priodol, ond yr oedd hyn wedi bod yn fethiant ac o ganlyniad yr oedd cytundebau unigol ar denantiaeth a meddiant yn amrywio'n fawr ar draws yr ystâd;
- fel tenantiaid, yr oedd yr ymddiriedolaethau GIG yr ymwelwyd â nhw yn amrywio yn y llwyddiant a gawsant wrth sefydlu a negodi termau'r cytundebau trwyddedu gyda'r Meddygon Teulu er mwyn diogelu eu hawliau a'u cyfrifoldebau a nodi, ymysg pethau eraill, faint o rent a chostau eraill a oedd yn briodol i'r ymddiriedolaethau fod yn gyfrifol amdanynt.

### Gwerth deiliadaeth ystâd GIG Cymru


3.18 Mae'n angenrheidiol i ymddiriedolaethau GIG ac awdurdodau iechyd wybod beth yw gwerth y gwahanol asedau eiddo, yn ogystal â beth sydd ei angen at ddibenion cyfrifon cyllidol, er mwyn helpu i wneud penderfyniadau deallus ar reolaeth a datblygiad ystadau. Mae'r prif brisiannau y dylent fod yn ymwybodol ohonynt yn cynnwys pris y farchnad (h.y. y pris y byddai'r farchnad fasnachol yn barod i'w dalu), gwerth yr ased yn ei defnydd presennol (h.y. cost am newid yr ased o ystyried gostyngiad yn y gwerth) a chost llawn ailgodi'r ased (h.y. cost ailadeiladu'r eiddo yn ôl prisiau cyfredol).

3.19 Buom yn adolygu cofnodion eiddo a gedwir yn lleol ac yn ganolog gan GIG Cymru a chanfod:

- fod Asiantaeth y Swyddfa Brisio wedi cynnal yr ailbrisiad diwethaf o holl ystâd GIG Cymru, ar gais y Swyddfa Gymreig, fel yr oedd ar 1 Ebrill 1999, ac y bydd yr ailbrisiad cyfnodol nesaf o'r ystâd yn cael ei gynnal yn 2003;
- fod cyfanswm gwerth defnydd cyfredol yr ystâd sydd yn naliadaeth ymddiriedolaethau ac awdurdodau iechyd tua £1.2 biliwn, 90 y cant ohono ar sail gwerth (£1.1 biliwn) yn naliadaeth ymddiriedolaethau; a bod y 10 y cant arall (£120 miliwn) yn naliadaeth awdurdodau iechyd, a bron y cyfan ohono yn ystâd heb ddefnydd gofal iechyd yn y tymor hir (ac a ystyrir fel ystâd weddilliol);
- fod Asiantaeth y Swyddfa Brisio wedi asesu gwerth ystâd gyfan GIG Cymru ar y farchnad agored yn £270 miliwn ar 1 Ionawr 2001, o ganlyniad i ymarferiad penodol y gofynnwyd amdano gan Gyfarwyddiaeth y GIG, ond i ddibenion rheolaeth weithredol ystadau yr oedd cyrff GIG unigol heb gael gwybod gwerth eu heiddo unigol ar y farchnad agored gael gwybod;
- fod amcangyfrif Ystadau Iechyd Cymru o'r gost o gael adeiladau modern yn lle holl ystâd GIG Cymru tua £4 biliwn;
- mai tair ymddiriedolaeth yw'r prif berchnogion eiddo o fewn GIG Cymru, a'u bod gydai'i gilydd yn dal ystâd a chanddi werth defnydd cyfredol o tua £490 miliwn, sef i 44 y cant o'r cyfanswm ar gyfer y cwbl o'r 15 ymddiriedolaeth,
  - Caerdydd a'r Fro, ag ystâd sy'n werth tua £185 miliwn,
  - Gofal Iechyd Gwent, ag ystâd gwerth £164 miliwn, ac
  - Abertawe, ag ystâd gwerth £141 miliwn;
- fod pum ymddiriedolaeth (Bro Morgannwg, Conwy a Sir Ddinbych, Gogledd Ddwyrain Cymru, Gogledd Orllewin Cymru, Pontypridd a'r Rhondda) yn dal eiddo gwerth rhwng £50 a £100 milliwn, tra bo'r saith ymddiriedolaeth arall (Ceredigion a Chanol Cymru, sir Gaerfyrddin, Gogledd Morgannwg, Sir Benfro a Derwen, Gofal

**Ffigur 12**

**Gwerth defnydd cyfredol eiddo sydd yn naliadaeth Ymddiriedolaethau GIG ac Awdurdodau Iechyd yng Nghymru**




*Ffynhonnell: Asiantiaeth y Swyddfa Brisio, 1999*

Iechyd Powys, Felindre) yn dal eiddo gwerth rhwng £10 a £50 miliwn, a'r lleiaf ohonynt, sef Ceredigion a Chanolbarth Cymru;

- o'r pum awdurdod iechyd, mai Gogledd Cymru oedd yn dal y mwyaf o eiddo (£42 miliwn) ac mai Iechyd Morgannwg oedd yn dal y lleiaf (£1 miliwn).

**Pwyntiau allweddol ar ddeiliadaeth a phrisiant ystâd GIG Cymru**

- GIG Cymru yw perchnogion bron y cwbl o'r ystâd sydd yn eu meddiant ac, am resymau gweithredol, mae gan rai ymddiriedolaethau eiddo sydd yn eu meddiant, yn eu perchnogaeth neu ar brydles ac sydd y tu hwnt i'w ffiniau tiriogaethol syml.
- Mae gofynion y gwaith gweinyddol a chostau'n ymwneud â rheolaeth fewnol a rhyng-ymddiriedolaethol ar feddiant eiddo ar safleoedd aml-berchnogaeth yn ymddangos i ni yn faich ac yn gost ddiangen. Gan hynny, yr ydym o'r farn y gallai fod mantais mewn adolygu dosbarthiad perchnogaeth eiddo ar draws ystâd GIG Cymru yn ei chyfanrwydd, er mwyn canfod pa bosibiliadau allai fod i ddileu cymhlethdod mewn trefniadau aml-ddaliadaeth ar safleoedd mewn aml-berchnogaeth.
- Mae lle i ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru wneud mwy i roi eu perthynas allanol rhwng perchennog a thenant ar sylfaen cytundebol cadarn ac i ddefnyddio eu cofnodion tenantiaeth mewn modd mwy gweithredol er mwyn gwneud gwell defnydd o'r ystâd.
- Mae gwybod gwerth cyfredol eiddo ar ystâd GIG Cymru ar y farchnad agored yn bwysig er mwyn galluogi ymddiriedolaethau yng Nghymru i wneud penderfyniadau cadarn ynglŷn â rheolaeth a datblygiad yr ystâd. Fodd bynnag, yn gyffredinol nid yw ymddiriedolaethau yn cadw asesiadau cyfamserol na chyson o eiddo unigol o fewn eu hystadau.

Yr ydym yr argymell fod:

- Ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru yn arddel dull mwy rhagweithiol o reoli eu perthynas perchennog a thenant, gyda phwyslais penodol ar sicrhau fod y gost o rentu ar ei isaf pan fônt yn denantiaid a bod incwm rhentu ar ei uchaf pan fônt yn berchenogion.

Mae **Ffigur 12** yn dangos gwerth defnydd cyfredol yr eiddo sydd yn naliadaeth ymddiriedolaethau GIG ac awdurdodau iechyd yng Nghymru.

## Cyflwr deiliadaeth ystâd GIG Cymru

3.20 Mae asesu cyflwr ystâd GIG yn golygu edrych ar dair agwedd wahanol:

- cyflwr yr ystâd o safbwynt gofynion statudol ar iechyd a diogelwch, gan gynnwys diogelwch rhag tân;
- cyflwr yr adeiladau a'r gwasanaethau cysylltiol ar yr ystâd; ac
- amcangyfrif y gost o ddod â'r ystâd i gyflwr cwbl ddiogel a di-nam, sef beth a ystyrir yn ôl-gronni gwaith cynnal a chadw.

### Cyflwr statudol: gofynion iechyd a diogelwch a safonau adeiladu

3.21 Mae gofyn i ystâd GIG Cymru gydymffurfio â gofynion iechyd a diogelwch, gan gynnwys rhagddarpariaethau tân a safonau adeiladu. Mae'r ddeddfwriaeth ar gyflwr statudol yn gymhleth ac yn datblygu'n gyson, ac mae hyn yn sialens fawr i weinyddiaeth ystâd GIG Cymru. Mae **Ffigur 13** yn rhestru'r prif rwymedigaethau ar y Deyrnas Unedig gyfan sydd wedi effeithio ar ystâd y GIG dros y degawd diwethaf.

**Ffigur 13**

**Y prif rwymedigaethau cyfreithiol sy'n effeithio ar ystâd GIG Cymru**

Rhoes dileu Breintryddid y Goron yn 1991 rwymedigaeth gyfreithiol ar y GIG yng Nghymru i gydymffurfio â'r holl statudau perthnasol, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â gofynion iechyd a diogelwch ynghyd â safonau adeiladu ar gyfer adeiladau sy'n darparu gofal iechyd.

Cyflwynodd y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 rwymedigaethau cyfreithiol eraill yn ymwneud ag adeiladwaith adeiladau cyhoeddus, gan gynnwys gofyniad i wneud addasiadau rhesymol erbyn 2004 i adeiladau er mwyn cwrdd ag anghenion pobl anabl.

- Mae'r Ardoll Newid Hinsawdd, a gyhoeddwyd gyntaf yng nghyllideb 1999 fel rhan o ymrwymiad y Llywodraeth i leihau allyriadau nwyon ty gwydr, yn golygu fod codiant ar yr holl gyfrifon ynni annomestig o Ebrill 2001 er mwyn hybu defnydd mwy effeithlon o ynni mewn adeiladau cyhoeddus.

**3.22** Mae cwrdd â safonau statudol a diogelwch yn brif flaenoriaeth i bob corff yng Nghymru sy'n dal eiddo a dyna sydd i gyfrif am y rhan fwyaf o wariant ar gynnal a chadw. Hon yw'r unig ran o berfformiad ystâd a orfodir drwy orchymyn cyfreithiol. Mae Prif Weithredwyr ymddiriedolaethau awdurdodau iechyd ac eraill sy'n darparu gwasanaethau iechyd yn gyfrifol am gydymffurfio â gofynion iechyd a diogelwch, gan gynnwys gofynion diogelwch tân yn eu hadeiladau. Hefyd, mae gan awdurdodau iechyd ddyletswydd gofal i sicrhau fod cleifion sy'n derbyn gwasanaethau a gontractiwyd i ymddiriedolaethau yn cael triniaeth mewn amgylchedd diogel. Gall llwyr gydymffurfio â gofynion statudol a gofynion diogelwch olygu gwariant cyfalaf sylweddol. Ar y llaw arall, gall methiant i gydymffurfio arwain at gau'r adeilad neu osod cyfyngiadau sylweddol ar y defnydd ohono, a gall hynny fod yn gostus iawn.

Mae **Ffigur 14** yn nodi achosion enghreifftiol ar safleoedd ysbytai penodol yng Nghymru sy'n amlygu problemau iechyd a diogelwch a sut i'w datrys.

**3.23** Mae **Ffigur 15** yn dangos canlyniadau'r arolygon ar gyflwr statudol a wnaed gan ymddiriedolaethau ac a roddwyd ganddynt yn arolwg holiadurol y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar reolaeth ystadau yng Nghymru. Dengys fod canran arwynebedd lloriau mewn ysbytai ac adeiladau eraill y GIG wedi'i asesu ac yn bodloni pob graddfa cyflwr.

**Ffigur 14**

## Problemau iechyd a diogelwch ar safleoedd pedwar ysbyty yng Nghymru

**Ysbyty'r Tywysog Siarl, Merthyr Tudful**

Y brif broblem yn yr ysbyty hwn ar hyn o bryd yw asbestos a diogelwch tân, er bod 10 rhybudd iechyd a diogelwch wedi'u gosod ar yr ysbyty dros y blynyddoedd diweddar, a bod dau ohonynt yn cael sylw ar amcan-gost o £17 miliwn. Mae delio â'r asbestos a'r problem diogelwch tân yn rhan o becyn o ailwampio ac ail-fuddsoddiad ehangach ar y safle gan gynnwys cyfleustra gwacáu, a amcangyfrifir iddo gostio £60 miliwn yn gyfan gwbl, gan gynnwys symiau arian a glustnodir yn barod am y cynllun.

**Ysbyty Glan Clwyd, Y Rhyl**

Adeiladwyd yr ysbyty hwn ar yr un adeg ac ar yr un cynllun ag Ysbyty'r Tywysog Siarl ym Merthyr Tudful. Mae diffygion sylweddol mewn adrannau tân yn bodoli ar y safle, a hynny yn cael ei ddwysáu gan fod y defnydd o asbestos fel atalydd tân mewn adeiladwaith ysbytai wedi'i ganfod yn 1997. Mae'r amcan-gost o gywiro hyn wedi cynyddu o £14 miliwn yn 1998, i £36 miliwn yn 2000, ac i £51 miliwn yn 2001, ac yn cynnwys gwaith adeiladu arall sydd angen ei wneud tra bo'r diffygion hyn yn cael eu cywiro. Mae'n debygol y bydd yn cymryd tua 8 mlynedd i gywiro'r problemau. Yn y cyfamser, mae Ymddiriedolaeth GIG Siroedd Conwy a Dinbych wedi gwario tua £200,000 y flwyddyn ar waredu asbestos mewn modd nad oedd yn achosi perygl i staff a chleifion.

**Ysbyty Nevill Hall a'r Cylch,Y Fenni**

Mae'r ysbyty hwn yn enghraifft dda o ôl-groniad uchel o waith cynnal a chadw oherwydd y lleihad cynyddol mewn gwariant ar gynnal a chadw ar y safle dros nifer o flynyddoedd. Cyfrannodd hyn at gynnydd yn y rhybuddion iechyd a diogelwch. Roedd y rhain wedi cael eu clirio erbyn ymweliad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Mae rhaglen uwchraddio sylweddol yn awr yn yr arfaeth.


**Ysbyty Gwynedd**

Yn 1993 canfuwyd fod pibau copr wedi rhydu yn y systemau dŵr oer a dŵr poeth ar y safle, ac ers hynny mae nifer yr achosion o ddŵr yn gollwng wedi cynyddu a'r broblem wedi dwysáu. Roedd y broblem rhydu yn wybyddus yn yr Alban ers 1983. Amcangyfrifir y bydd y gost uniongyrchol o gywiro'r broblem yn Ysbyty Gwynedd dros £2 miliwn, ac yn cymryd mwy na dwy flynedd i'w gwblhau. Gofynnir am gymeradwyo pecyn busnes am gyfanswm o £8 miliwn, i gynnwys gwaith adfer a gwelliannau eraill fel rhan o becyn uwchraddio ehangach. Mae rhwd mewn pibau copr hefyd yn broblem fawr yn Ysbyty Maelor Wrecsam, ac roedd yn bodoli yn Ysbyty Elài yng Nghaerdydd sydd bellach wedi ei ddymchwel.

*Tarddiad: GIG Cymru a'r Cynulliad*

**Ffigur 15**

## Cyflwr Statudol y 15 Ymddiriedolaeth GIG




A: Adeilad newydd sy'n cydymffurfio â phob gofyniad statudol a chanllawiau Cod Tân.

B: Adeiladau mewn bodolaeth sy'n cydymffurfio â'r Cod Tân ac â'r gofynion statudol.

C: Adeilad sydd heb gyrraedd safon A neu B.

D, CX, DX: Rhannau sydd yn beryglus islaw naill ai Safon A neu B. Graddfa X a ychwanegwyd at C neu D i ddynodi fod, oherwydd natur yr adeilad, gwelliannau i ragddarpariaethau tân yr adeiladwaith a modd dianc naill ai'n anymarferol neu'n rhy gostus i fod yn bosibl.

Heb eus arolygu.

Sylwer: mae diffiniadau graddau cyflwr wedi'u cymryd o ganllawiau'r GIG yn ei gyfanrwydd. (Ystadgod cyfrol 1, 1993, Dadansoddiad o berfformiad ystâd, paragraffau 13-19 & Atodiad 1)

*Ffynhonnell: Holiadur Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru*

3.24 Canfuwyd fod:

- pob un o'r 15 ymddiriedolaeth wedi cynnal arolwg o'u hysbytai ond fod tri ohonynt heb gynnal arolwg o'u hadeiladau eraill;
- chwe ymddiriedolaeth wedi cynnal arolwg o'u holl eiddo o fewn y flwyddyn flaenorol a dwy ymddiriedolaeth arall wedi cwblhau arolwg ar fwy na hanner eu heiddo;
- dwy ymddiriedolaeth (Gofal Iechyd Powys, Gwasanaethau Ambiwlans Cymru) heb gynnal arolwg o'u heiddo ers mwy na phum mlynedd tra bo dwy ymddiriedolaeth arall (Caerdydd a'r Fro, Gogledd Morgannwg) wedi gadael peth o'u heiddo am y cyfnod hwnnw;
- un rhan o bump o'r ystâd gyfan heb gael arolwg ar adeg ein arolwg holiadurol, er bod ymddiriedolaethau wedi dweud wrthym mai eiddo nad yw'n angenrheidiol oedd y rhan fwyaf ohono (h.y. eiddo y dynodwyd fod ganddo lai na phum mlynedd o ddefnydd);
- traean o'r eiddo y cynhaliwyd arolwg ohono heb gydymffurfio'n llawn â gofynion statudol;
- un rhan o gant o'r ystâd wedi'i hasesu naill ai'n beryglus islaw'r safon neu'n annarbodus i'w hatgyweirio, a hyn yn gyfanswm o 23,000 metr sgwâr ac yn gyfartal ag ysbyty o faint canolig;
- y graddfeydd tu hwnt i atgyweirio economaidd yn ymwneud ag eiddo yn naliadaeth tair ymddiriedolaeth (Bro Morgannwg, Sir Benfro a Derwen, Gofal Iechyd Powys).

3.25 Yn Ebrill 1995 dywedodd y Swyddfa Gymreig wrth gyrff GIG yng Nghymru sy'n dal eiddo fod angen cyflwyno tystysgrif flynyddol o gydymffurfio â'r Cod Tân gyda'r nod o gael cydymffurfiad llawn â rheolau tân a'r safonau Côd Tân erbyn Ebrill 2000. Gofynnwyd iddynt gyflwyno rhaglen waith oedd yn rhoi blaenoriaeth i'r rhannau mwyaf peryglus. Fodd bynnag, canfuwyd nad oedd yr un ymddiriedolaeth wedi cydymffurfio'n llwyr â safonau'r Côd Tân erbyn Ebrill 2000. Mae Ystadau Iechyd Cymru wedi ymgymryd â rhaglen waith i fesur i ba raddau y bu cydymffurfio neu ddiffyg cydymffurfio ar hyn o bryd ac i nodi'r rhannau mwyaf peryglus er mwyn canfod cost rhaglen adfer a'i rhoi ar waith.

## Cyflwr yr ystâd


3.26 Yn ôl canllawiau'r GIG mae gofyn i gyrff sy'n dal eiddo gael darlun llawn o gyflwr eu hadeiladau, y gwasanaethau peiriannol cysylltiol, a'r gwaith allanol er mwyn datblygu rhaglenni gweithredol a strategaeth ar gyfer cynnal a chadw a mân waith. Cyfunir pedair elfen ar bymtheg i ffurfio un raddfa. Enghreifftiau yw cyflwr mewnol ac allanol adeiladwaith yr adeilad ynghyd â'r tô, lifftiau, systemau draenio a thrydanol.

3.27 Mae **Ffigur 16** yn dangos canlyniadau arolygon ar gyflwr a gynhaliwyd gan ymddiriedolaethau ac a roddwyd ganddynt yn arolwg holiadurol Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru. Mae'n dangos y canran o arwynebedd llawr adeiladau sy'n cyrraedd pob graddfa cyflwr. Dyma'r canlyniadau:

- ar adeg ein holiadur, yr oedd bron chwarter o gyfanswm arwynebedd yr ystâd heb fod yn destun arolwg gan yr ymddiriedolaethau, a hynny'n cynnwys dwy ymddiriedolaeth na wnaeth ddim cyflwyno data ar adeg ein holiadur, a'r ddwy ohonynt ers hynny wedi cwblhau arolygon;
- yr oedd pum ymddiriedolaeth wedi cwblhau arolwg llawn o fewn y flwyddyn flaenorol a phedair ymddiriedolaeth wedi cwblhau arolwg llawn o fewn pum mlynedd, tra bo'r data a

**Ffigur 16**

**Data ar gyflwr yn y 15 Ymddiriedolaeth GIG**




A: Mae'r elfen fel newydd a gellid disgwyl iddi berfformio'n foddhaol.

B: Mae'r elfen yn gadarn, yn weithredol ddiogel ac yn dangos ond ychydig o ddirywiad.

C: Mae'r elfen yn weithredol ond bydd angen atgyweirio sylweddol neu amnewidiad buan, hynny yw o fewn tair blynedd yn achos adeilad, a blwyddyn yn achos elfen beirianyddol.

D, CX, DX: Mae perygl mawr y bydd yr elfen hon yn torri i lawr yn fuan iawn. Graddfa X a ychwanegwyd at C neu D i ddynodi nad yw'n bosibl ei gwella heb osod un arall yn ei lle.

Heb eu arolygu gan ymddiriedolaethau

*Ffynhonnell: Holiadur Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru*

gyflwynwyd gan dair ymddiriedolaeth (Ceredigion a Chanolbarth Cymru, Gogledd Morgannwg, a Gofal Iechyd Powys) yn fwy na pum mlwydd oed;

- yr oedd dros chwarter yr ystâd ag angen gwaith sylweddol o fewn y tair blynedd nesaf i'w rhoi ar sail gadarn;
- yr oedd pedwar y cant o'r ystâd ar fin torri i lawr ac ni fyddai'n ymarferol ei hatgyweirio.

3.28 Mae cynllun strategol cyntaf y Cynulliad Cenedlaethol, Gwell Cymru, yn cynnwys rhoi blaenoriaeth i wella cyflwr ystâd y GIG. Gan mai gwaelodlin o 60 y cant o'r ystâd weithredol oedd yn o leiaf cyflwr Gradd B (h.y yn gadarn, yn weithredol ddiogel ac yn dangos ond ychydig o ddirywiad) yn 1997/98 y darged gyfredol yw i 90 y cant o'r ystâd fod yn y cyflwr hwn erbyn 2002/03. Dengys ein holiadur fod, ac eithrio y rhannau nad oedd yr ymddiriedolaethau wedi cynnal arolwg ohonynt, 75 y cant o holl arwynebedd yr adeiladau hanfodol (y rhai hynny â defnydd iddynt wedi'r pum mlynedd nesaf) wedi cael eu hasesu gan Ymddiriedolaethau ar raddfa cyflwr B o leiaf. Fodd bynnag, mae angen i ymddiriedolaethau wneud gwaith sylweddol pellach i gynnal arolygon mwy cynhwysfawr ac i gyrraedd y targed a bennwyd gan y Cynulliad ar gyflwr.

### Ôl-groniad gwaith cynnal a chadw yr ystâd

3.29 Mae'r Cynulliad a GIG Cymru yn diffinio baich ôl-groniad gwaith cynnal a chadw ar gyfer ystâd GIG Cymru fel yr amcangyfrif o'r cyfanswm y mae'r cyrff sy'n dal eiddo yn ei amcangyfrif yn angenrheidiol ei wario er mwyn dod â'u heiddo i fyny at gyflwr gradd B yn y categorïau cyflwr diogelwch a statudol, gan gynnwys cost uwchraddio ynni. Ar sail yr adroddiad ar berfformiad ystadau GIG, mae Ystadau Iechyd Cymru wedi cyfri'r gost o gyrraedd cyflwr statudol a chyflwr gradd B ar draws yr ystâd gyfan i fod tua £318 miliwn fel yn 1999/2000. Mae'r ffigur hwn yn llai na'r amcangyfrif o £340 miliwn yn 1997-98, yn bennaf oherwydd gwerthiant eiddo yn hytrach nag oherwydd uwchraddio drwy fuddsoddiad newydd.

3.30 O ganlyniad i arolwg ein holiadur canfuwyd fod:

- amcangyfrif yr ymddiriedolaethau, at ei gilydd, yw mai ganddynt ychydig dros hanner y cyllid sy'n angenrheidiol i ddod â'r ystâd gyfan i gyflwr gradd B (h.y i'w gwneud yn gadarn, yn weithredol ddiogel ac yn dangos dim ond ychydig o ddirywiad).
- yn ôl y wybodaeth a roddwyd i ni gan 14 ymddiriedolaeth (ni chafwyd ffigyrau gan Wasanaethau Ambiwlans Cymru) amcangyfrifir fod angen £365 miliwn ar GIG Cymru er mwyn uwchraddio yr ystâd gyfan i gyflwr statudol a chyflwr gradd B, gan gynnwys uwchraddio perfformiad ynni perthnasol;
- dywedodd 13 ymddiriedolaeth wrthym eu bod wedi clustnodi £158 miliwn dros y pum mlynedd nesaf i'r diben hwn (ni chafwyd ffigur gan Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Morgannwg gan fod ei phrif safle ag angen ailwampio helaeth y maent wedi derbyn cyllid sylweddol ar gyfer hyn).

#### Y prif bwyntiau ar gyflwr ystâd GIG Cymru


- Mae cyflwr yr ystâd o ran cwrdd â gofynion statudol yn wael. Ym Mehefin 2000 dim ond hanner yr ystâd yn naliadaeth ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru oedd yn llawn gydymffurfio â gofynion statudol iechyd a diogelwch, gan gynnwys diogelwch tân, tra bo un rhan o bump o'r ystâd heb gael arolwg ar y dyddiad hwn. Heblaw hynny, nid oedd naill ai rhan na'r cwbl o ystâd pum ymddiriedolaeth wedi cael arolwg ers mwy na thair blynedd. Er fod gwaith yn cael ei wneud ar arolygon iechyd a diogelwch, gan gynnwys gwaith arolwg diogelwch tân ar y cyd ag Ystadau Iechyd Cymru, mae gan ymddiriedolaethau GIG Cymru lawer i'w wneud eto i gyrraedd cydymffurfiad statudol.
- Mae'r arolygon o gyflwr yr ystâd sydd yn naliadaeth ymddiriedolaethau GIG yn dangos fod gwaith sylweddol eto i'w wneud i gwrdd â tharged y Cynulliad, sef bod 90 y cant o'r ystâd weithredol yn cyrraedd o leiaf cyflwr gradd B (h.y. yn gadarn, yn weithredol ddiogel ac yn dangos ond ychydig o ddirywiad) erbyn 2002-03. O ben i ben, dim ond llai na hanner yr ystâd yn naliadaeth yr ymddiriedolaethau GIG oedd yng nghyflwr gradd B o leiaf ym Mehefin 2000, er bod bron chwarter yr ystâd heb gael arolwg.
- Ar sail adroddiadau perfformiad ystâd yr ymddiriedolaethau yn 1999-2000, mae Ystadau Iechyd Cymru yn cyfrif mai'r amcan-gost o ddod ag ystâd yr ymddiriedolaethau i gyflwr statudol a gradd B (h.y. cydymffurfio â gofynion statudol, yn gadarn, yn weithredol ddiogel ac yn dangos ond ychydig o ddirywiad) oedd £318 miliwn. Dywedodd yr ymddiriedolaethau wrth Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru y byddai'r gost lawn, fel ar 31 Mawrth 2000, o gydymffurfio'n llwyr â chyflwr statudol a chorfforol gradd B tua £365 miliwn.

Dyma ein hargymhellion:

- bod cyrff sy'n dal eiddo yn sicrhau bod yr wybodaeth ar gyflwr statudol a chyflwr mor gyflawn a diweddaredig â phosib a bod gwariant er gwella eiddo yn rhan o strategaeth gynhwysfawr i wella ystadau ar draws Cymru; a
- bod y Cynulliad a GIG Cymru yn ystyried rhinwedd mewn arddel safon gychwynnol ar gyfer cyflwr (dyweder cyrraedd cyflwr gradd C) wrth asesu gofynion ôl-groniad gwaith cynnal a chadw er mwyn helpu i flaenoriaethu gwario ar welliannau gwaith, gan gymryd i ystyriaeth yr angen i osgoi buddsoddiad sylweddol ar adeiladau na fydd eu hangen yn y tymor hir.

**Ffigur 17**

**Y buddsoddiad sydd ei angen ac a glustnodwyd gan yr ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru er mwyn uwchraddio eu hystadau i raddfa cyflwr B**




Nodiadau:

1. Rhoddwyd ffigyrau gan yr holl ymddiriedolaethau ac eithrio Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.
2. Cyflwr gradd B yw pan fo'r adeilad a'r offer cysylltiol yn gadarn, yn weithredol ddiogel ac yn dangos dim ond ychydig o ddirywiad. Cyflwr statudol gradd B yw pan fo adeiladau yn cydymffurfio â gofynion statudol a chanllawiau côd tân.

*Ffynhonnell: Holiadur Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru*

Mae **Ffigur 17** yn dangos y symiau y mae gwahanol ymddiriedolaethau yn amcangyfrif mae angen iddyn nhw wario i ddod â'u hystadau i raddfa statudol a chyflwr B, gan gynnwys costau uwchraddio ynni 31 Mawrth 2000; ynghyd â'r symiau y maent wedi'u clustnodi er mwyn mynd i'r afael â'r baich o ôl-groniad gwaith cynnal a chadw dros y pum mlynedd o 2000-01 i 2004-05.

## Addasrwydd gweithredol yr ystâd


3.31 Mae nifer o ffactorau'n effeithio ar ba mor addas i bwrpas yw adeilad. Maent yn cynnwys ystyriaethau fel ei leoliad mewn perthynas â chanolfannau poblog a thrafnidiaeth gyhoeddus, pellter cerdded rhwng cyfleusterau, preifatrwydd digonol i gleifion a staff, ac amodau amgylcheddol fel lefelau gwresogi, goleuo, awyru a sŵn.

3.32 Mae **Ffigur 18** yn dangos canlyniadau arolwg ein holiadur o addasrwydd gweithrediadol ym mhob ymddiriedolaeth GIG. Mae'n dangos canran arwynebedd llawr yr ysbytai ac adeiladau eraill sydd yn ôl asesiad yr ymddiriedolaethau yn bodloni'r raddfa addasrwydd gweithrediadol. Dyma'r canlyniadau:

- pan gynhaliwyd ein harolwg holiadurol, yr oedd dros draean o arwynebedd adeiladau'r ymddiriedolaethau heb gael arolwg gan ymddiriedolaethau, gan gynnwys pedair ymddiriedolaeth (Ceredigion a Chanolbarth Cymru, Gogledd Orllewin Cymru, Abertawe, Gwasanaethau Ambiwlans Cymru) a oedd heb astudiaethau o gwbl ar addasrwydd gweithrediadol ac un ymddiriedolaeth (Felindre) oedd wedi cynnal arolwg ar ddim ond rhan o'r ystâd;
- nid oedd mwy na hanner yr ymddiriedolaethau wedi cynnal arolwg addasrwydd gweithrediadol ar eu hadeiladau o fewn y pum mlynedd diwethaf, a hyn yn gyfartal â 35 y cant o arwynebedd adeiladau mewn metrau sgwâr;
- yr oedd tair ymddiriedolaeth wedi cynnal arolwg llawn (Gofal Iechyd Gwent, Gogledd Ddwyrain Cymru, a Phontypridd a'r Rhondda) ac yr oedd un arall wedi asesu rhan fwyaf o'u hystâd yn y flwyddyn flaenorol (Bro Morgannwg), ond nid oedd pedair ymddiriedolaeth wedi cynnal arolwg o'r holl ystâd neu ran ohoni yn y pum mlynedd

## Ffigur 18

**Addasrwydd gweithredol yn y 15 Ymddiriedolaeth GIG**




A: Gradd uchel o fodlonrwydd.

B: Derbyniol/rhesymol: dim angen newid sylweddol.

C: Islaw safon dderbyniol.

D, CX, DX: Annerbyniol yn ei gyflwr presennol. Ychwanegwyd X at D i ddynodi fod y cyfleustra islaw safon (neu'n amhosib ei wella) ac mai dim ond ei ailgodi fyddai'n dderbyniol.

Heb eu arolygu gan ymddiriedolaethau

*Tarddiad: Holiadur y Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru*

## Prif bwyntiau ynglŷn ag addasrwydd gweithredol ystâd GIG Cymru

- Er bod ymddiriedolaethau wedi asesu bron hanner eu hystadau yn gwbl neu'n weddol addas i'r pwrpas, yr oedd tuag un rhan o bump islaw safonau rhesymol i'r pwrpas. Ond, ar adeg ein holiadur nid oedd arolwg wedi'i gynnal ar 35 y cant o'r eiddo, er gwaethaf y pwyslais yn amcanion polisi'r Cynulliad ac yng nghanllawiau rheolaeth ystadau GIG ar ddangos addasrwydd i'r pwrpas.
- Argymhellwn fod cyrff a chanddynt ddaliadaeth eiddo yn sicrhau fod eu gwybodaeth ar addasrwydd gweithrediadol mor gyflawn a diweddaredig â phosib a bod gwariant i wella addasrwydd i'r pwrpas yn rhan o strategaeth gynhwysfawr i wella ystadau.

diwethaf (Caerdydd a'r Fro, Conwy a Sir Ddinbych, Gogledd Morgannwg, Gofal Iechyd Powys);

- o ganlyniad i'r arolygon mae un rhan o bump o'r ystâd wedi'i dosbarthu fel naill ai islaw safonau derbyniol neu'n annerbyniol.

3.33 Mae amryw ddarpariaethau'r Ddeddf Anffafrio Anabledd 1995, sy'n delio â darparu nwyddau, cyfleusterau a gwasanaethau, wedi bod yn dod i rym yn raddol ers 1996. Bydd y newid sy'n debygol o effeithio fwyaf ar ystâd GIG Cymru yn dod i rym yn 2004. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i berchnogion adeiladau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ymgymryd â newidiadau i'r adeiladwaith os yw hynny'n angenrheidiol. Mae'r Cynulliad wedi cydnabod y bydd angen i ymddiriedolaethau gynnal arolygon llawn neu archwiliadau o'u hadeiladau ynghyd ag asesiadau risg ac i ymgymryd â'r holl waith adfer sy'n angenrheidiol. Yn ôl bras-amcan y Cynulliad byddai gweithredu'r Ddeddf yn llawn yn costio tua £20-25 miliwn.

## Defnyddio ystadau


3.34 Byddai modd gwneud arbedion cyllidol sylweddol drwy ddileu gofod diangen a thrwy fanteisio ar le sbâr fel nad oes gofod nad yw'n angenrheidiol ar gyfer anghenion presennol ac i ddiwallu cynlluniau'r dyfodol. I'r gwrthwyneb, mae angen dileu'r broblem o ddim digon o le gan y gall hynny lesteirio cyflenwi gwasanaethau gofal iechyd. Gan hynny, mae'n bwysig bod cyrff a chanddynt ddaliadaeth eiddo bob hyn a hyn yn cynnal arolygon cyfnodol a chynhwysfawr ar y defnydd a wneir o adeiladau er mwyn canfod gor-ddefnyddio neu dan-ddefnyddio, ac yn hysbysu'r rhai sy'n cynllunio ar gyfer rhesymoli ystadau.

3.35 Dangosir canlyniadau ein harolwg ar sut y defnyddir gofod yn holl ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru yn **Ffigur 19**. Mae'n dangos canran yr arwynebedd llawr mewn ysbytai ac adeiladau eraill sydd, yn ôl asesiad yr ymddiriedolaethau, yn cyrraedd pob un o'r graddau defnyddio. Dyma'r canlyniadau:

- nid oedd arolwg ar y defnydd o le wedi'i gynnal ar draean o'r ystâd ac felly ni roddwyd ystyriaeth i'r posibiliadau o wella defnydd ac arbed arian yn achos cyfran sylweddol o'r ystâd;
- yr oedd pedair ymddiriedolaeth wedi cynnal arolwg o'r cyfan o'u hystâd yn y flwyddyn cyn ein holiadur (Gofal Iechyd Gwent, Gogledd Ddwyrain Cymru, Gogledd orllewin Cymru, Pontypridd a'r Rhondda) ac yr oedd dwy ymddiriedolaeth wedi cynnal arolwg o'r cyfan o'u hystâd o fewn y tair blynedd ddiwethaf (Bro Morgannwg a Sir Gaerfyrddin);

## Ffigur 19

### Y Defnydd o le yn y 15 ymddiriedolaeth GIG




*Tarddiad: Holiadur Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru*

- yr oedd un ymddiriedolaeth (Felindre) wedi cwblhau arolwg rhannol 3-5 mlynedd yn ôl tra bo chwe ymddiriedolaeth (Caerdydd a'r Fro, Ceredigion a Chanolbarth Cymru, Siroedd Conwy a Dinbych, Gogledd Morgannwg, Sir Benfro a Derwen, a Gofal Iechyd Powys) wedi cynnal arolwg ar ran neu ar y cwbl o'u heiddo fwy na 5 mlynedd yn ôl.
- nid oedd dwy ymddiriedolaeth (Abertawe, Gwasanaethau Ambiwlans Cymru) wedi cynnal arolwg ar y defnydd o le.

3.36 Yn achos dwy ran o dair o'r ystâd y cynhaliwyd arolwg ohoni canfuwyd:

- bod dwy ran o dair o ystâd yr ymddiriedolaethau y gwnaed arolwg ohonynt yn cael defnydd digonol;
- bod ugain y cant o ystâd yr ymddiriedolaethau y gwnaed arolwg ohonynt yn cael ei dan-ddefnyddio;
- bod tri y cant o'r ystâd y gwnaed arolwg ohonynt yn segur;
- bod deg y cant o'r ystâd y gwnaed arolwg ohonynt wedi'i asesu fel gorlawn; a
- nad oedd ffigyrau'r ysbytai yn sylweddol wahanol i'r canlyniadau uchod parthed yr holl eiddo a aseswyd.

3.37 Os cymerir fod y canlyniadau ar gyfer y dau ran o dri o'r ystâd oedd wedi bod yn destun arolwg ar adeg ein holiadur yn gynrychioladol o'r ystâd gyfan, yna gallai bron chwarter yr ystâd fod yn cael ei dan-ddefnyddio neu fod yn segur. Amcangyfrifwn y gallai'r gost i GIG Cymru o gadw gafael yn yr ystâd sy'n cael ei than-ddefnyddio neu sy'n segur tua £25 miliwn y flwyddyn mewn gwariant y gellid ei osgoi. Cawsom yr amcangyfrif hwn ar sail ei bod, tra bo cost flynyddol o gynnal tua chwarter ystâd GIG Cymru yn oddeutu £60 miliwn, yn fwy realistig i roi cost baich eiddo o'r fath ar tua 10 y cant o'r cyfanswm o £250 miliwn i gynnal ystâd GIG Cymru yn flynyddol. Mae hyn oherwydd ei bod yn debygol fod y rhan fwyaf o'r ystâd sy'n cael ei than-ddefnyddio neu eisoes yn segur wedi cael ei dynodi'n hepgorol, sef ddim yn llawn weithredol ac yn cael y gofal a chynnal a chadw lleiaf.

3.38 I'r gwrthwyneb, os yw'r canlyniadau ar gyfer y ddwy ran o dair o'r ystâd oedd wedi bod yn destun arolwg gan ymddiriedolaethau ar adeg ein holiadur yn gynrychioladol o'r ystâd gyfan, yna gallai degfed ran o'r ystâd fod yn orlawn. Gallai hyn olygu fod effeithiolrwydd gweithrediadol y rhannau hyn o'r ystâd fod yn sylweddol ddiffygiol.

### Prif bwyntiau ar ddefnydd o'r ystâd

- Mae'r Cynulliad yn awyddus fod ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru yn dangos eu bod yn defnyddio yr asedau eiddo sydd ganddynt eisoes mewn modd effeithlon cyn gwneud buddsoddiad newydd yn ystâd GIG Cymru. Y dasg allweddol yng nghynllun GIG Cymru yw fod pob ymddiriedolaeth wedi arolygu'r defnydd o'r ystâd sydd ganddynt yn barod erbyn Rhagfyr 2001.
- Yn ôl yr asesiad yr oedd bron chwarter yr ystâd a arolygwyd yn cael ei than-ddefnyddio neu'n segur, er nad oedd arolwg wedi'i gynnal ar ychydig dros draean yr holl ystâd ym Mehefin 2000.
- Os yw'r canlyniadau ar gyfer y ddwy ran o dair a arolygwyd yn gynrychioladol, amcangyfrifwn y gellid osgoi tua £25 miliwn y flwyddyn o gostau cynnal ystadau drwy wneud gwell defnydd o eiddo sy'n cael ei dan-ddefnyddio, gwneud y lleiaf posibl o waith gofal ac o gynnal a chadw, a datgan fod eiddo yn ddiangen ac ar gael i'w waredu. Gellid rhoi'r arbedion hyn tuag at fuddsoddiant i wella'r gwaith cynnal a chadw ar rannau eraill o'r ystâd.

Gan hynny, yr ydym yn argymell bod:

- Ymddiriedolaethau GIG yn cynnal arolygon rheolaidd ar y defnydd o ofod yn yr holl ystâd ac yn diweddaru'r cofnodion yn rheolaidd ar sail redegol (yn ychwanegol at yr adolygiad cyfredol ar y defnydd o adeiladau sy'n cael ei wneud dan Gynllun GIG Cymru); dylid rhoi'r canlyniadau i fyrddau gweithredol yr ymddiriedolaethau o leiaf yn flynyddol.

**Ffigur 20**

**Enghreifftiau o ymarfer da yn y defnydd o le yn ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru**

**Ysbyty Llwynhelyg, Sir Benfro - yr uned famolaeth**

Roedd gan obstetreg a mamolaeth, a leolir yn wardiau 5 a 6, ddefnydd isel o welyau, sef ar gyfartaledd dim ond 40 y cant; ar ddau achlysur yn unig 60 y cant oedd y defnydd mwyaf a wnaed yn y cyfan o 1998/99. Roedd ganddynt 40 o welyau ond roedd problemau iechyd a diogelwch ynghyd â theatr nad oedd wedi'i defnyddio am ddwy flynedd. Heblaw hynny, nid oedd digon o staff i gynnal y wardiau. Fel rhan o'r project i resymoli gwasanaethau drwy'r ysbyty, Menter Ail-ffocysu ar y Claf, cafwyd ymgynghoriad eang a daethant i'r casgliad y gellid lleihau nifer y gwelyau i 25 a rhoi'r theatr ar gael i'r Ysbyty Llawfeddygaeth Ddydd, gan ryddhau 700 medr sgwâr. Gwnaed y gwaith hwn a rhyddhawyd cyfleusterau a hynny'n caniatáu datblygu cynlluniau eraill ar y safle, fel y Ganolfan Gofal ar gyfer Cleifion Ambiwlaidd.

**Ysbyty Athrofaol Caerdydd - uned dydd ar gyfer llawdriniaeth i gleifion ambiwlaidd**

Mae uned sylweddol i lawdriniaeth sy'n ddewisol neu ar gyfer cleifion ambiwlaidd yn cael ei datblygu yn Ysbyty Athrofaol Prifysgol Cymru drwy lenwi'r maes parcio dan y prif adeilad a chadw'r ddwy theatr bresennol. Bydd hyn yn cynyddu'r nifer o 10-12,000 o gleifion a welir yn flynyddol ar hyn o bryd fel bod lle i 20,000 o gleifion gan ddefnyddio 84 troli mewn ward o 24 o welyau ac 8 theatr. Bydd y gwasanaeth newydd yn cynnwys theatr argyfwng dydd a'r gallu i ychwanegu at achosion dydd, e.e. bydd yn bosibl tynnu pledren y bustl mewn 24 awr yn hytrach na 3 diwrnod. Maent yn disgwyl mai dyma fydd yr uned lawdriniaeth dydd fwyaf yn y DU a hwyrach hyd yn oed yn Ewrop.

3.39 Mae **Ffigur 20** yn rhoi enghreifftiau disgrifiadol o ymarfer da yn y defnydd o ofod a nodwyd yn ein hymweliadau ag ymddiriedolaethau unigol.

## Perfformiad ynni

3.40 Mae ystâd GIG Cymru yn ddefnyddiwr ynni sylweddol; yr oedd yr ynni a ddefnyddiwyd yn 1999-2000 yn gyfartal â beth fyddai 40,000 o gartrefi yn ei ddefnyddio. Mae ysbytai Cymru wedi bod yn monitro perfformiad ynni yn erbyn targedau diffiniedig ers 1984/85. Nid yw llwyddo i gael lleihad yn y defnydd o ynni yn hawdd gan fod llawer o ffactorau yn gwrthweithio yn ei erbyn. Mae'r draul ar ynni yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn gan tri y cant oherwydd y defnydd helaethach o dechnoleg newydd a'r galw am beiriannau sy'n defnyddio llawer o ynni, megis system dymheru.

3.41 Mae'r llywodraeth wedi cyflwyno targedau am 20 y cant o leihad yn y defnydd o ynni crai erbyn y flwyddyn 2000 o'i gymharu â 1990-91. Fodd bynnag, yn 1999-2000 roedd y gostyngiad a gafwyd gan ymddiriedolaethau GIG Cymru tua 8.7 y cant, diffyg sylweddol o 11.3 y cant islaw'r targed ar gyfer y cyfnod hwnnw o ddeng mlynedd. Amcangyfrifwn fod y diffyg hwn yn cynrychioli cost dybiannol i GIG Cymru o ryw £12 miliwn mewn gwariant ar ynni dros y degawd. Y targed newydd a osodwyd gan y llywodraeth ganolog yw lleihad o 15 y cant yn y defnydd o ynni crai rhwng Ebrill 2000 a Mawrth 2010. Ar hyn o bryd mae'r Cynulliad yn adolygu cymhwyso'r ffigur hwn yng Nghymru.

3.42 O Ebrill 2001, bydd yr Ardoll Newid Hinsawdd yn dod i rym er mwyn gwella effeithlonrwydd ynni. Bydd ychwanegiad o 12 y cant ar gostau trydan a 25 y cant ar gostau nwy ar yr holl gyfrifon ynni annomestig. Yn erbyn hyn gosodir gostyngiad o 0.3 y cant i gyflogwyr ar Gyfraniadau Cenedlaethol Cyflogwyr. Ar y cyfan ni fydd effaith y trefniadau hyn ar GIG Cymru yn debygol o fod yn fawr gan ei fod yn cyflogi llawer o staff. Fodd bynnag, bydd ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru yn parhau i fod dan bwysau i ddefnyddio ynni yn fwy effeithlon er mwyn cadw costau ynni i lawr. Gallai hyn ei gwneud yn ofynnol i ymddiriedolaethau unigol fuddsoddi cyfalaf mewn cyfarpar sy'n defnyddio ynni'n effeithlon ac mewn pŵer adnewyddadwy.


3.43 Mae **Ffigur 21** yn dangos canlyniadau holiadur y Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru ar berfformiad ynni'r ymddiriedolaethau. Mae'n dangos canran arwynebedd llawr yr adeiladau cyrraedd y gwahanol raddau o berfformiad yn ôl asesiad gan yr Ymddiriedolaethau. Canfuwyd fod:

3.44 Dyma ganfuwyd:

- nid oedd ymddiriedolaethau wedi cynnal arolwg ar berfformiad ynni yn 17 y cant o ystâd GIG Cymru;
- dywedodd wyth ymddiriedolaeth eu bod wedi cynnal arolwg ar eu holl eiddo yn y flwyddyn flaenorol (Bro Morgannwg, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Chanolbarth Cymru, Siroedd Conwy a Dinbych, Gofal Iechyd Gwent, Sir Benfro a Derwen, Pontypridd a'r Rhondda);
- yr oedd dwy ymddiriedolaeth (Caerdydd a'r Fro a Felindre) wedi cynnal arolwg ar y rhan fwyaf o'u hystâd yn y ddwy flynedd diwethaf, a'r drydedd (Gogledd Orllewin Cymru) wedi cynnal arolwg ar y cwbl o'r ystâd o fewn y pum mlynedd diwethaf;
- yr oedd un ymddiriedolaeth (Abertawe) yn cynnal gwaith arolwg ar adeg ein holiadur;
- nid oedd dwy ymddiriedolaeth (Gogledd Morgannwg, Gofal Iechyd Powys) wedi cynnal arolwg perfformiad ynni yn y pum mlynedd flaenorol;

## Ffigur 21

### Perfformiad ynni y 15 Ymddiriedolaeth GIG




A: Adeiladau a godwyd yn unol â Rheoliadau Adeiladu 1985 a Dogfen Gymeradwy L - 'Cadwraeth Tanwydd a Phwer.

B: Adeilad sydd wedi mynd drwy raglen gydgysylltiedig o gadwraeth (diffiniwyd).

C: Adeilad lle gallesid cymryd mesurau cadwraeth ynni ar sail *ad hoc*.

D, CX, DX: Adeilad lle na chymerwyd mesurau cadwraeth ynni.

Heb eu arolygu gan ymddiriedolaethau

*Ffynhonnell: Holiadur Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru*

- roddwyd ystyriaeth i effeithlonrwydd ynni wrth adeiladu degfed ran o holl ystâd GIG; yr oedd dros draean o'r ystâd wedi bod drwy raglen gydgysylltiedig o gadwraeth ynni; a thraean o'r ystâd wedi ymgorffori rhai mesurau cadwraeth ynni ar sail ad hoc; ac
- nid oedd pedwar y cant o'r ystâd wedi gweld mesurau cadwraeth ynni o gwbl.

3.45 Yr oedd pob un o'r ymddiriedolaethau yr ymwelwyd â hwy wedi cymryd rhyw fath o fesurau arbed ynni. Rhestrir rhai enghreifftiau yn **Ffigur 22**. Petai pob ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru yn llwyddo i arbed rhwng dau a thri y cant y flwyddyn ar eu lefelau cyfredol o draul ynni (y cyfartaledd blynyddol a gafwyd gan ymddiriedolaethau Caerdydd a'r Fro a Sir Benfro a Derwen), amcangyfrifwn y byddai GIG Cymru yn arbed rhwng £200,000 a £300,000 bob blwyddyn ar gostau ynni. Rydym yn cydnabod y byddai angen buddsoddi mewn cyfarpar newydd, ond gellid gwneud llawer yn syml drwy fesurau cadw tŷ.

## Ffigur 22

### Enghreifftiau o fesurau arbed ynni a gymerwyd mewn ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru

**Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro**

Dywedodd ymddiriedolaeth Caerdydd a'r Fro wrthym y gwnaed arbediad o 18.3 y cant yn yr holl ynni a ddefnyddiwyd yn ystod y cyfnod o ddeng mlynedd o 1990-91 i 1999-00, yn rhannol drwy resymoliad dwys o rannau o'r ystâd oedd yn aneffeithlon yn y defnydd o ynni, a hefyd trwy roi ei pholisi ynni ar waith. Cyflogwyd Swyddog Ynni o 1997 gan gyn-ymddiriedolaeth GIG Ysbyty Athrofaol Cymru ac erbyn hyn mae'n gyfrifol am Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro. Mae'n rhaid iddo lwyddo i arbed ynni er codi arian i dalu ei gyflog.

**Ymddiriedolaeth Sir Benfro a Derwen**

Yn Ysbyty Llwynhelyg, sydd bellach yn rhan o ymddiriedolaeth Sir Benfro a Derwen, bu ganddynt raglen arbed ynni ers 1982. Dywedodd yr ymddiriedolaeth wrthym y gwnaed arbediad o 60 y cant yn y draul ynni dros y cyfnod o 18 mlynedd hyd at y flwyddyn 2000. Yn bennaf llwyddwyd i wneud hyn drwy newid y system cynhyrchu stêm a rhoi peiriannau cynhyrchu gwres a phŵer yn ei lle a thrwy wella'r ddarpariaeth ynysu.

*Ffynhonnell: GIG Cymru*

## Prif bwyntiau ar berfformiad ynni yn ystâd GIG Cymru


- Yn erbyn targed y llywodraeth ganolog o leihad o 20 y cant ar draul ynni crai dros y degawd 1990-01 i 1999-2000, llwyddodd GIG Cymru i arbed 8.7 y cant drwyddo draw. Petai'r ymddiriedolaethau wedi cyrraedd y targed amcangyfrifwn y byddai GIG Cymru wedi arbed cyfanswm amcangyfrifedig o £12 miliwn mewn costau ynni dros y cyfnod hwn o ddeng mlynedd.
- Fodd bynnag, perfformiad ynni oedd y maes lle gwnaeth yr ymddiriedolaethau yr ymdrech fwyaf i gael data arolwg diweddar a chynhwysfawr. Mae hyn yn glodwiw gan fod arbedion o ganlyniad i reolaeth ofalus ar ynni yn bwysig a gallant fod yn sylweddol.
- Er hynny, yn achos llwyddo i wneud defnydd mwy effeithlon o ynni a buddsoddi mewn peiriannau i arbed ynni y mae amrywiaeth fawr ym mherfformiad y gwahanol ymddiriedolaethau. Mae llawer eto y gallai ymddiriedolaethau ei wneud i fonitro a lleihau costau ynni.

Yr ydym yn argymell fod:

- Ymddiriedolaethau yn rhoi blaenoriaeth i fesurau arbed ynni, yn syml o hyrwyddo ymwybyddiaeth o draul ynni i fuddsoddi mewn cyfarpar sy'n defnyddio ynni'n effeithlon, gan y byddai hyd yn oed lleihad blynyddol o 2-3% yn GIG Cymru yn ei gyfanrwydd yn arbed rhwng £200,000 a £300,000 bob blwyddyn.

**Ffigur 23**

## West Wales General Hospital, Carmarthen




*Ffynhonnell: Ystadau Iechyd Cymru*

# ATODIAD 1: Methodoleg a ddefnyddiwyd gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru

1 Wrth wneud yr ymchwiliad bu i Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru:

- Gyfweld y swyddogion yn y Cynulliad sy'n gyfrifol am reoli ystadau a materion perthynol, ac archwilio papurau perthnasol y Cynulliad, gan gynnwys ystyried gwaith y Grŵp Llywio Strategaeth Ystadau a'i amryw dîmau adolygu;
- Gyfweld swyddogion yn GIG Cymru sy'n gyfrifol am reoli ystadau ac â phrofiad uniongyrchol o ddefnyddio gwasanaethau ystâd o fewn y GIG yng Nghymru ac adolygu strategaethau newydd a luniwyd gan ymddiriedolaethau GIG ac awdurdodau iechyd;
- Tynnu ar yr wybodaeth a'r arbenigedd o fewn Ystadau Iechyd Cymru i lunio ei ddadansoddiad o berfformiad gweithredol y cyrff o fewn GIG Cymru sy'n dal eiddo, gan gynnwys adolygu'r wybodaeth am berfformiad ystadau a gyflwynwyd i Ystadau Iechyd Cymru gan ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru;
- Gynnal arolwg holiadurol o bob un o'r 15 ymddiriedolaeth GIG a'r pump awdurdod iechyd yng Nghymru i gael gwybodaeth am faint, gwerth, cyflwr, addasrwydd gweithredol, y defnydd o le a thraul ynni yr ystâd;
- Ymweld â saith o'r pymtheg ymddiriedolaeth GIG a phob un o'r pum awdurdod iechyd yng Nghymru i archwilio gweithrediad y trefniadau ynglŷn â rheoli ystadau a'r ymarfer ar y llawr. Roedd hyn yn cynnwys ymweld â thua 40 safle ysbyty, canolfannau iechyd a chlinigau;

2 Hyrwyddodd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru dau grŵp ffocws o swyddogion yn GIG Cymru a chanddynt brofiad o reoli ystadau i'n cynorthwyo i ddatblygu ein casgliadau a'n hargymhellion.

# ATODIAD 2: Crynodeb o argymhellion perthnasol Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar reoli ystâd y GIG (1988) ac ymateb y llywodraeth

| Pryder y Pwyllgor HC 481 1987/88 | Ymateb y Llywodraeth CM 533 | Y sefyllfa bresennol yng Nghymru a nodir yn yr adroddiad hwn |
|---|---|---|
| **Ynglŷn â chynllunio strategol** | | |
| Pwysleisiodd y pwyllgor ei bod yn ofyn angenrheidiol bod y tair Adran Iechyd (yr Alban, Lloegr a Chymru) yn sicrhau bod awdurdodau iechyd a byrddau yn cysylltu materion yr ystâd â chynlluniau gwasanaeth a roeddynt yn synnu bod hwn yn ddiffyg yng nghynlluiau strategol presennol. | Mae'r Adrannau Iechyd yn cydnabod â pharodrwydd sylwadau'r Pwyllgor am yr angen i gysylltu materion ystâd â chynlluniau gwasanaeth. Mae'r Adrannau'n rhannu safbwynt y Pwyllgor fod modd gwneud arbedion sylweddol drwy'r rhaglen resymoli a gynlluniwyd sy'n cynnwys gwneud defnydd effeithiol o'r eiddo presennol. | Nid oes strategaeth trosfwaol ar lefel uchel ar gyfer ystâd GIG Cymru, er fod cynllun cenedlaethol ar gyfer datblygu ystâd ar y gweill. Mae'r rhan fwyaf o ymddiriedolaethau ac awdurdodau iechyd GIG Cymru yn datblygu strategaethau ystâd addas i'w daliadau eiddo lleol ar ôl adgyflunio. Mae'r Cynulliad wedi gosod targed o fis Rhagfyr 2001 i ymddiriedolaethau'r GIG gael eu strategaethau ystâd yn barod. Mae angen mynegi'r cysylltiadau rhwng strategaethau gwasanaeth a materion ystâd mewn strategaethau ystâd sy'n dod i'r amlwg yn fwy eglur. |
| **Ynglŷn â gwybodaeth am reoli ar Ystâd y GIG** | | |
| Roedd y Pwyllgor yn pryderu nad oedd arolygon o gyflwr eiddo'r GIG yn ddibynadwy nac yn cael eu diweddaru'n gyffredinol; fod y defnydd o le o fewn yr adeiladau heb ei asesu'n gyffredinol; a hyd yn oed pan oedd yr wybodaeth ar gael na fyddid yn ei defnyddio bob amser. Roedd y Pwyllgor yn disgwyl i'r Adrannau Iechyd weithredu drwy eu prosesau adolygu i sicrhau fod arolygon o gyflwr, addasrwydd a'r defnydd yn cael eu cwblhau'n lleol ac yn cael eu diweddaru. Roedd o'r farn ei bod yr un mor bwysig i werthuso'r darganfyddiadau a'u defnyddio i oleuo cynllunio strategol yr awdurdodau a'r byrddau perthnasol. | Mae'r Adrannau Iechyd yn cydnabod pryder y Pwyllgor am arolygon ystâd ac yn gweithredu, yn unol â'i argymhellion, i sicrhau fod awdurdodau iechyd yn cwblhau a diweddaru ei harolygon o gyflwr ac yn ystyried o ddifrif a yw'r eiddo yn addas ar gyfer ei bwrpas ac a yw'r gofod yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon.<br><br>Yng Nghymru gofynnwyd i Awdurdodau Iechyd Ardal i sefydlu cronfa ddata leiafswm ac mae'r gwaith i gyflawni'r gofyniad hwn erbyn 1 Ebrill 1989 ar y gweill.<br><br>Bydd y Data:<br><br>(i) yn cael ei gadw a'i ddefnyddio gan Ardaloedd a bydd yn cynnwys:<br>• lleoliad y safle a'i berchnogaeth<br>• gwerth<br>• poblogaeth y dalgylch ardal<br>• (ardal y safle, mater eiddo diangen)<br>• gwybodaeth am adeiladau (math, oed, cyflwr, cost uwchraddio, ayyb.)<br>• addasrwydd swyddogaethol, y defnydd o le, ayyb. | Nid oedd arolygon o gyflwr, defnydd ac addasrwydd ar gyfer pwrpas yr eiddo ar ystâd GIG Cymru yn ddigon cyflawn nac wedi'u diweddaru ddigon i roi gwybodaeth lawn ar gyfer rheoli datblygiad strategol yr ystâd ar lefelau lleol neu Gymru gyfan. Rhoddwyd y gorau yn y 1990au i rai mecanweithiau arbennig ar gyfer arolygu ac adolygu perfformiad rheoli ystâd cyrff oedd yn dal eiddo yng Nghymru.<br><br>Bydd cychwyniadau newydd y Cynulliad mewn rheoli perfformiad ystâd yn barod erbyn Ebrill 2002, gyda'r amcan o ddatrys diffygion presennol o ran arolygu ac adolygu. |

| Pryder y Pwyllgor HC 481 1987/88 | Ymateb y Llywodraeth CM 533 | Y sefyllfa bresennol yng Nghymru a nodir yn yr adroddiad hwn |
|---|---|---|
| | ◗ asedau ar wahân i dir ac adeiladau<br>(ii) i'w adrodd i'r Swyddfa Gymreig gan gynnwys:<br>◗ cyfnewid eiddo<br>◗ rhagweld cyfnewidiadau ar gyfer projectau cyfalaf dros y tair blynedd nesaf. | |
| **Ynglŷn â chyflwr yr ystâd** | | |
| Nododd y pwyllgor gyflwr gwael llawer o Ystâd y GIG gan ei hystyried yn beth anfoddhaol fod llety a nodwyd yn "Anweithredadwy" neu'n "annerbyniol" yn cael eu defnyddio ar gyfer gofal cleifion. | Mae casgliadau'r Pwyllgor ei bod yn anfoddhaol fod llety a nodwyd yn "Anweithredadwy neu'n annerbyniol" yn cael eu defnyddio ar gyfer gofal cleifion yn cael eu derbyn gan yr Adrannau Iechyd. | Mae cyflwr corfforol ystâd GIG Cymru'n amrywio'n helaeth, ond mae asesiad wedi'i wneud y bydd dros chwarter yr ystâd ag angen atgyweiriadau sylweddol o fewn y tair blynedd nesaf. Gwael yw cyflwr yr ystâd o ran cwrdd â gofynion statudol.<br><br>Mae'r Cynulliad wedi gosod targed o gael 90 y cant o'i ystâd weithredol mewn cyflwr cadarn, yn ddiogel ar gyfer gweithredu, ac yn dangos dirywiad bychan yn unig erbyn 2002-03. |

I grynhoi, fe gadarnhaodd y Llywodraeth fod yr adrannau iechyd o'r farn mai'r allwedd i reoli effeithlon o ystâd y GIG yw casglu a chynnal gwybodaeth gynhwysfawr. Mae'r holl agweddau o reoli ystâd wedi'u corffori yn y broses adolygu flynyddol (a'r un gyfatebol yng Nghymru) a gyflwynwyd yn unol ag argymhelliad yr Ymchwiliad Rheolaeth (Adroddiad Griffiths) i gryfhau atebolrwydd o fewn y GIG. Bydd yr Adrannau Iechyd yn sicrhau fod yr awdurdodau iechyd:

- yn cwblhau, cynnal a defnyddio'u cronfeydd data am yr ystâd;
- yn ufuddhau i safonau statudol perthnasol;
- yn cynnal yr ystâd mewn cyflwr derbyniol;
- yn rhesymoli'r ystâd yn unol â chynlluniau strategol a;
- yn nodi eiddo diangen ac yn ei waredu mewn modd cywir.